# CYNGOR BRO MORGANNWG

# CYNLLUN ARIANNU TEG

# AR GYFER ARIANNU YSGOLION 2023/24

# CYNGOR BRO MORGANNWG
# CYNLLUN ARIANNU TEG AR GYFER ARIANNU YSGOLION


| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Adran 1** | **Cyflwyniad** | |
| 1.1 | Cyffredinol | 5 |
| 1.2 | Y Fframwaith Ariannu | 6 |
| 1.3 | Rôl y Cynllun | 8 |
| 1.4 | Gweithredu’r cynllun mewn ysgolion a gynhelir | 8 |
| 1.5 | Cyhoeddi’r cynllun | 8 |
| 1.6 | Adolygu’r cynllun | 9 |
| 1.7 | Rôl y Cyngor, y Corff Llywodraethu a dirprwyo pwerau i’r Pennaeth | 9 |
| 1.8 | Cynnal a chadw ysgolion | 11 |
| 1.9 | Archwiliad, canllawiau caffael a rheoliadau ariannol | 11 |
| **Adran 2** | **Gofynion Ariannol: Archwiliad** | |
| 2.1 | Gweithredu Rheoliadau Ariannol mewn ysgolion | 11 |
| 2.2 | Darparu Gwybodaeth ac Adroddiadau Ariannol | 11 |
| 2.3 | Talu cyflogau a biliau | 12 |
| 2.4 | Rheoli Asedau a chofrestri rhestri | 12 |
| 2.5 | Polisïau Cyfrifyddu (gan gynnwys gweithdrefnau diwedd y flwyddyn) | 13 |
| 2.6 | Dileu dyledion | 14 |
| 2.7 | Sail cyfrifyddu | 14 |
| 2.8 | Cyflwyno cynlluniau cyllideb | 14 |
| 2.9 | Trosglwyddiadau cyllideb | 15 |
| 2.10 | Archwiliad; cyffredinol | 15 |
| 2.11 | Archwiliad allanol | 16 |
| 2.12 | Archwilio cronfeydd gwirfoddol, answyddogol neu breifat | 15 |
| 2.13 | Cofrestru buddiannau busnes | 16 |
| 2.14 | Gofynion prynu, tendro a chontractio | 17 |
| 2.15 | Gweithredu rheoliadau mewn ysgolion | 17 |
| 2.16 | Cronfeydd canolog a chlustnodi | 18 |
| 2.17 | Gwario at ddibenion yr ysgol | 19 |
| 2.18 | Gwariant cyfalaf o gyfranddaliadau cyllideb | 19 |
| 2.19 | Gwerth am arian | 19 |
| **Adran 3** | **Rhandaliadau o gyfranddaliad cyllideb a threfniadau bancio** | |
| 3.1 | Cyffredinol | 20 |
| 3.2 | Benthyciadau gan ysgolion | 21 |
| **Adran 4** | **Trin balansau gwarged a diffyg** | |
| 4.1 | Yr hawl i gario balansau gwarged ymlaen | 22 |

| | | |
|---|---|---|
| 4.2 | Adrodd ar ddefnydd bwriadedig y balansau gwarged | 22 |
| 4.3 | Llog ar falansau gwarged | 23 |
| 4.4 | Rhwymedigaeth i gario balansau diffyg ymlaen | 23 |
| 4.5 | Balansau ysgolion sy’n cau/newydd | 23 |
| **Adran 5** | **Incwm** | |
| 5.1 | Incwm o osod eiddo | 24 |
| 5.2 | Incwm o brydau ysgol | 24 |
| 5.3 | Incwm o ffioedd a thaliadau | 24 |
| 5.4 | Incwm o weithgareddau codi arian | 25 |
| 5.5 | Incwm o Werthu Asedau | 25 |
| 5.6 | Y weithdrefn weinyddol ar gyfer casglu incwm | 25 |
| 5.7 | Incwm o ddarpariaethau gofal plant cofrestredig | 26 |
| **Adran 6** | **Codi tâl ar gyllidebau ysgolion** | |
| 6.1 | Darpariaeth gyffredinol | 28 |
| 6.2 | Amgylchiadau lle gellir codi tâl | 28 |
| **Adran 7** | **Talu treth** | |
| 7.1 | Treth Ar Werth (TAW) | 30 |
| 7.2 | Cynllun Trethiant y Diwydiant Adeiladu | 30 |
| 7.3 | IR35 | 30 |
| **Adran 8** | **Darparu gwasanaethau a chyfleusterau gan y Cyngor** | |
| 8.1 | Darparu gwasanaethau a brynwyd yn ôl gan y Cyngor | 31 |
| 8.2 | Darparu gwasanaethau o gyllidebau a gedwir yn ganolog | 31 |
| 8.3 | Amserlen ar gyfer gwasanaethau a ddaw yn ôl o’r Awdurdod | 31 |
| 8.4 | Pecynnu | 31 |
| 8.5 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 31 |
| 8.6 | Cyllidebau cyfun | 32 |
| 8.7 | Cyflenwi’n fewnol yn yr hir dymor a chynlluniau mamolaeth | 32 |
| **Adran 9** | **Yswiriant** | |
| 9.1 | Yswiriant | 33 |
| **Adran 10** | **Amrywiol** | |
| 10.1 | Hawl i gyrchu gwybodaeth | 34 |
| 10.2 | Atebolrwydd Llywodraethwyr | 34 |
| 10.3 | Gwariant Llywodraethwyr | 34 |
| 10.4 | Cyfrifoldeb am gostau cyfreithiol | 34 |
| 10.5 | Iechyd a Diogelwch | 35 |
| 10.6 | Hawl i fynychu Prif Swyddogion Ariannol | 35 |
| 10.7 | Dirprwyo i ysgolion newydd | 35 |
| 10.8 | Disgyblion sydd wedi’u gwahardd yn barhaol | 35 |
| 10.9 | Iawndal am ymddeoliad cynnar | 36 |
| 10.10 | Anghenion Addysgol Arbennig | 36 |
| 10.11 | Chwythu'r Chwiban | 36 |

| | | |
|---|---|---|
| 10.12 | Diogelu plant | 36 |
| **Adran 11** | **Cyfrifoldeb dros Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | |
| 11.1 | Cyffredinol | 37 |


**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**CYNLLUN ARIANNU TEG**
**AR GYFER ARIANNU YSGOLION**

## ATODIADAU


| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Rheoli strategol – Gweithgareddau |
| Atodiad 2 | Mynediad at Addysg – Gweithgareddau |
| Atodiad 3 | Rhestr o Ysgolion sy’n cael eu cynnwys dan y cynllun |
| Atodiad 4 | Cyfrifoldeb dros atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw |
| Atodiad 5 | Chwythu'r Chwiban |
| Atodiad 6 | Gweithdrefn caffael ysgolion ar gyfer projectau cyfalaf |
| Atodiad 7 | Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer rhestri asedau ysgolion |
| Atodiad 8 | Templed ar gyfer archwilio cronfeydd answyddogol/preifat ac enghraifft o gyfrifon diwedd blwyddyn |

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1. Cyffredinol

**1.1.1.** Mae fformat y Cynllun wedi cael ei sefydlu yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Deddf Addysg 2002, Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**1.1.2.** Mae'r Cynllun yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredu'r cynigion yn y papurau ymgynghori a'r nodiadau canllaw fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**1.1.3.** Diben y fframwaith yw:

- *Gwella Safonau* – helpu ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ganlyn prif flaenoriaeth pawb sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth addysg – codi safonau.

- *Hunan-reoli* – galluogi ysgolion i ddatblygu eu gallu i reoli eu hunain.

- *Atebolrwydd* – drwy gyfuno cyllidebau â chyfrifoldebau fel y gall ysgolion ac Awdurdodau Lleol gael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad o ran gwario arian cyhoeddus.

- *Tryloywder* – gwneud penderfyniadau ynghylch cyllido ysgolion yn glir ac yn ddealladwy.

- *Cyfle* – i bob ysgol ond bygythiad i ddim un. Ni ddylid gorfodi ysgolion cynradd yn benodol i ysgwyddo cyfrifoldebau na allant ddelio â hwy.

- *Tegwch* - sicrhau bod ysgolion o'r tri chategori yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, h.y. ysgolion cymunedol, gwirfoddol a sylfaenol.

- *Gwerth am Arian* – drwy helpu ysgolion ac Awdurdodau Lleol i gael gwerth am arian a galluogi partïon eraill â diddordeb i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd.

**1.1.4.** Lle mae'r cynllun yn cyfeirio at ysgolion yn ymgynghori â, neu'n ceisio cymeradwyaeth gan, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau neu'r Swyddog Adran 151, gall ysgolion wneud hynny drwy'r Rheolwr Cyllid neu'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Strategaeth ac Adnoddau.

## 1.2. Y Fframwaith Ariannu

**1.2.1.** Egwyddor sylfaenol y cynllun yw dirprwyo cyfrifoldebau rheoli cymaint â phosibl i'r cyrff llywodraethu, er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor.

**1.2.2.** Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol o roi disgresiwn i gyrff llywodraethu a'r penaethiaid reoli adnoddau yn yr ysgol. Bwriad y cynllun yw galluogi pob corff llywodraethu, ar y cyd â Phennaeth a staff yr ysgol, i reoli sut y mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio er budd holl ddisgyblion yr ysgol. Gall y corff llywodraethu wario ei gyllideb hefyd ar unrhyw ddibenion ychwanegol yn unol â rheoliadau Adran 50 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

**1.2.3.** Gall y Cyngor atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig os yw'n torri darpariaethau'r cynllun cyllido ysgolion yn sylweddol neu'n barhaus, neu os nad yw'r cynllun wedi cael ei reoli'n foddhaol. Mae hawl i apelio i Lywodraeth Cymru. Gellir atal hawl ysgol i gynllun cyllideb ddirprwyedig am resymau eraill hefyd dan Adran 17 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

**1.2.4.** Mae'r fframwaith cyllido yn seiliedig ar y darpariaethau deddfwriaethol mewn adrannau 45-53 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion fel y'i diwygiwyd gan Adran 41 Deddf Addysg 2002.

**1.2.5.** Dan y ddeddfwriaeth hon, mae'r Cyngor yn pennu cyfanswm y gyllideb addysg, sef y swm a ddyrannwyd gan y Cyngor i fodloni'r holl wariant sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Y Gyllideb Ysgolion Unigol yw'r swm sy'n weddill ar ôl tynnu unrhyw wariant arfaethedig y Cyngor allan o Gyllideb Ysgolion. Dylai'r rhain gael eu tynnu yn unol â rheoliadau. Y Gyllideb Ysgolion Unigol yw'r swm a ddyrannir i ysgolion.

**1.2.6.** Nid yw'r Gyllideb Ysgolion Unigol yn cynnwys:

- Taliadau i Gyngor arall yn unol ag adrannau 493 neu 494 Deddf Addysg 1996 (ad-daliad rhwng Awdurdodau) ac adran 207 Deddf Addysg 2002.
- Gwariant y gall y Cyngor ei gyfalafu yn eu cyfrifon yn unol ag arferion cyfrifo cywir

  a) y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu dilyn yn rhinwedd deddfu,

b) sy'n cael eu cydnabod, naill ai drwy gyfeirio at unrhyw god cyhoeddus cydnabyddedig neu fel arall, fel arferion cyfrifo cywir y dylid glynu wrthynt wrth gadw cyfrifon Awdurdodau Lleol, naill ai'n gyffredinol neu o ran y disgrifiad dan sylw.

c) Gwariant sy'n cael ei wrthbwyso gan incwm a ddaw gan Brif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi/Estyn.

d) Gwariant at ddibenion Adran 26 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (trefniadau ar gyfer patrolio croesfannau ysgol).

**1.2.7.** Gall y Cyngor gadw cyllid canolog at ddibenion a ddiffinnir mewn rheoliadau a wnaed dan adran 45A Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion fel y'i diwygiwyd gan adran 41 Deddf Addysg 2002. Y Cyngor sy'n pennu'r swm i'w gadw, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a/neu amodau a bennir gan reoliad.

**1.2.8.** Neilltuir y cyllid a gedwir yn ganolog ar gyfer cyfrifoldebau penodol y Cyngor, gan gynnwys

- Rheoli Strategol – sy'n cynnwys rheolaeth gyffredinol o gyfrifoldebau'r Cyngor fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1.

- Mynediad – mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau'r Cyngor dros ddarparu strwythur addysg o ran llefydd mewn ysgolion, adeiladau a chyfleusterau; sicrhau y gall plant gael lle mewn ysgol; a sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol. Gweler rhestr o'r prif wasanaethau a gweithgareddau yn Atodiad 2.

- Cymorth i Wella Ysgolion, sydd bellach yn cael ei gyflawni yn bennaf gan Gonsortiwm Canolbarth y De.

- Darpariaeth o Natur Arbenigol – mae hyn yn cynnwys gwariant ar y canlynol:

  a) Gwasanaethau seicoleg addysgol
  b) Prosesau rhoi datganiadau
  c) cymorth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill, darparu gwasanaethau partneriaeth rhieni a datrys anghydfodau
  d) Addysg ac eithrio mewn ysgol, gan gynnwys unedau atgyfeirio disgyblion a gwersi yn yr ysbyty/cartref
  e) Cymorth ymddygiad
  f) Diogelu plant

- Iechyd a diogelu plant:-
  a) gwariant ar gyfer cyflawni swyddogaethau diogelu plant y Cyngor dan Ddeddf Plant 1989 ac adran 175 Deddf Addysg 2002;

  b) gwariant yn gysylltiedig â threfniadau dan adran 31 Deddf Iechyd 1999 a/neu adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

  c) gwariant o ran darparu cymorth meddygol arbenigol i ddisgyblion unigol nad yw'n cael ei ddarparu gan Ymddiriedaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Bwrdd Iechyd Lleol na Gweinidogion Cymraeg.

**1.2.9.** Mae'r Cyngor yn dyrannu symiau o Gyllidebau Ysgolion Unigol i'w ysgolion a gynhelir yn unol â fformiwla sy'n cyd-fynd â rheoliadau. O hyn cyfrifir cyfran pob ysgol a gynhelir o'r gyllideb.

**1.2.10.** Yna caiff cyfran y gyllideb ei dirprwyo i gorff llywodraethu'r ysgol dan sylw, oni bai bod yr ysgol yn ysgol newydd sydd heb dderbyn cyllideb ddirprwyedig eto, neu os yw'r hawl i gael cyllideb ddirprwyedig wedi cael ei hatal yn unol ag adran 8 Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion neu adran 51 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

## 1.3. <u>Rôl y Cynllun</u>

**1.3.1.** Mae'r cynllun yn nodi'r berthynas ariannol rhwng y Cyngor a'r ysgolion a gynhelir y mae'n eu hariannu. Mae'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig, sy'n rhwymo'r Cyngor a'r ysgolion.

## 1.4. <u>Gweithredu'r Cynllun ar ysgolion a gynhelir</u>

**1.4.1.** Bydd y cynllun hwn yn berthnasol i ysgolion cymunedol, gwirfoddol, sylfaenol ac ysgolion arbennig cymunedol hefyd.

**1.4.2.** Gweler rhestr o'r ysgolion sy'n cael eu cynnwys dan y cynllun hwn yn Atodiad 3.

**1.4.3.** Bydd unrhyw ysgol newydd a gynhelir yn cael ei chynnwys dan y cynllun drwy rinwedd adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

## 1.5. Cyhoeddi'r Cynllun

**1.5.1.** Bydd copi electronig o'r cynllun yn cael ei roi i Bennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol sy'n cael ei chynnwys dan y cynllun.

**1.5.2.** Mae gofynion y cyhoeddiad wedi'u cynnwys mewn rheoliadau.

## 1.6. Adolygu'r Cynllun

**1.6.1.** Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus mewn ymgynghoriad â phartïon â diddordeb.

**1.6.2.** Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun yn amodol ar ymgynghoriad â Phenaethiaid a llywodraethwyr, a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y fforwm cyllideb.

## 1.7. Swyddogaeth y Cyngor, y Corff Llywodraethu a Dirprwyo Pwerau i'r Pennaeth

**1.7.1.** Bydd swyddogaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar y canlynol yn bennaf: -

- cyfrifoldeb eithaf dros y gwasanaeth addysg, gan gynnwys darparu'r gwasanaeth, monitro, gwerthuso a rheoli perfformiad y Cyngor a'r ysgol;
- Nodi a chytuno ar dargedau ac amcanion i'r ysgol ar y cyd â chyrff llywodraethu;
- Gosod lefel gyffredinol yr adnoddau ar gyfer y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd, a hynny'n ymwneud â'r ysgol neu beidio;
- Cadw adnoddau canolog i gyflawni eu cyfrifoldebau penodedig;
- Dyrannu, yn unol â'r fformiwla y cytunwyd iddi, symiau o'r Cyllidebau Ysgolion Unigol rhwng yr ysgolion a gynhelir;
- Cefnogi ysgolion a chyrff llywodraethu yn ôl yr angen;
- Helpu ysgolion, lle bo angen, i reoli adnoddau a chontractau;
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

**1.7.2.** Bydd swyddogaeth y corff llywodraethu yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- cyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- cynnal, a gwella lle bo hynny'n bosibl, safonau cyflawniad addysgol pob disgybl yr ysgol;
- gweithredu Cynllun Datblygu'r Ysgol;
- gweithredu Cynllun Gwella'r Ysgol;
- cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contract;

- cydymffurfio â ‘Chod Ymarfer’ Anghenion Addysgol Arbennig;
- cydymffurfio â’r holl ofynion cyfreithiol eraill;
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

**1.7.3.** I gyflawni ei swyddogaeth, gall y corff llywodraethu ddirprwyo tipyn o reolaeth ddyddiol yr ysgol a phennu i ba raddau yr hoffai ddirprwyo ei bwerau ariannol i’r Pennaeth. Dylai penderfyniadau o’r fath gael eu cofnodi yng nghofnodion y corff llywodraethu.

**1.7.4.** Wrth ystyried lefel y dirprwyo i’r Pennaeth, dylai’r corff llywodraethu hefyd ystyried gweithdrefnau a dulliau adrodd. Mae angen i’r Pennaeth wybod ei derfynau o ran lefel y pwerau penderfynu a ddirprwyir iddo. Gallai dryswch ac anghydfod o bosibl godi rhwng y Pennaeth a’r Llywodraethwyr os nad yw hyn yn glir o’r cychwyn cyntaf. Ni waeth beth yw lefel y dirprwyo, y Corff Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb.

**1.7.5.** Wrth osod ei gynllun cyllideb flynyddol (cynllun cyllideb swyddogol cyntaf), mae’r Pennaeth yn gyfrifol am hysbysu’r corff llywodraethu o ofynion yr ysgol, yn seiliedig ar y wybodaeth sy’n hysbys ar yr adeg honno. Rhaid i’r corff llywodraethu graffu a chytuno ar gynllun cyllideb flynyddol a chofnodi ei benderfyniad yng nghofnodion y corff llywodraethu. Ar ôl ei gymeradwyo, rhaid i’r Pennaeth hysbysu’r Cyngor o’i gynllun cyllideb arfaethedig erbyn 31 Mai. Dylai’r corff llywodraethu llawn gymeradwyo unrhyw newidiadau yn y cynllun swyddogol cyntaf. Dylai’r Cyngor gael gwybod am unrhyw newidiadau o’r fath sydd wedi’u cymeradwyo.

**1.7.6.** Dylai cyrff llywodraethu ystyried sefydlu nifer o bwyllgorau. Yn dibynnu ar faint yr ysgol, gallai’r rhain amrywio mewn nifer. Rhaid i’r holl gyrff llywodraethu gael y pwyllgorau statudol canlynol:

- Disgyblu a diswyddo
- Disgyblu a gwahardd disgyblion
- Derbyniadau (ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig)

**1.7.7.** Caiff pwyllgorau nad ydynt yn statudol eu pennu gan bob corff llywodraethu’n unigol er mwyn cynnal eu swyddogaethau, e.e. cyllid, eiddo, iechyd a diogelwch ac ati.

**1.7.8.** Dylai pob pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd ac adrodd yn ôl i bob cyfarfod y corff llywodraethu llawn. Dylid rhoi gwybod am unrhyw feysydd o bryder i’r Cyngor er mwyn iddo gymryd camau unioni, gan mai’r Cyngor sydd â’r cyfrifoldeb terfynol dros y gwasanaeth addysg, gan gynnwys ysgolion.

### 1.8. Cynnal a chadw ysgolion

**1.8.1.** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ysgolion sy'n cael eu cynnwys dan y cynllun, ac mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd am dalu'r holl dreuliau o ran cynnal y rhain (oni bai am ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lle mae rhai o'r treuliau, yn ôl statud, yn daladwy gan y corff llywodraethu.)

**1.8.2.** Rhan o'r ffordd y mae Cyngor yn cynnal a chadw ysgolion yw drwy system sy'n cael ei rhoi ar waith dan adrannau 45-53 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

### 1.9. Canllawiau archwilio a chaffael ar gyfer ysgolion; a rheoliadau ariannol y Cyngor

**1.9.1.** Rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r canllawiau archwilio a chaffael ar gyfer ysgolion yn ogystal â rheolau gweithdrefnau ariannol y Cyngor a rheolau gweithdrefnau contract.

## 2. GOFYNION ARIANNOL: ARCHWILIAD

### 2.1. Gweithredu Rheoliadau Ariannol ar Ysgolion

**2.1.1.** Mae cywirdeb a chysondeb gweithgareddau ariannol y Cyngor yn gyfrifoldeb ar y Swyddog Adran 151 drwy rinwedd adran 151 ac adran 114 Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 1988.

**2.1.2.** Rhaid i ysgolion, drwy reoli eu cyllideb ddirprwyedig, lynu wrth ofynion y Cyngor o ran monitro a rheoliadau ariannol, gan gynnwys y rhai dan y cynllun a Rheolau Gweithdrefnau Contract ac Ariannol y Cyngor. Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn ysgolion sy'n methu â chydymffurfio. Gallai'r gyfran o'r gyllideb ddirprwyedig a'r cyfrifoldebau cysylltiedig ddod i ben pe bai hynny'n digwydd.

**2.1.3.** Ni fydd y corff llywodraethu yn cynllunio i orwario ei gyfran o'r gyllideb heb gytundeb penodol gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Byddai cytundeb o'r fath ond yn cael ei wneud mewn amgylchiadau arbennig a chan ddeall y byddai unrhyw orwariant yn cael ei glirio erbyn yr amserlen y cytunwyd arni.

### 2.2. Darparu Adroddiadau a Gwybodaeth Ariannol

**2.2.1.** Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i ysgolion am eu cyfran o'r gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r gyllideb yn berthnasol iddi. Bydd yn

dangos yr adnoddau sydd ar gael i'r corff llywodraethu a ddyrannwyd yn ôl y fformiwla y cytunwyd arni yn unol â rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

**2.2.2.** Bydd y Cyngor hefyd yn darparu amcangyfrif o gyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod dilynol a gyllidir. Ni fydd y symiau amcangyfrif hyn yn rhwymo'r Cyngor o ran y penderfyniadau gwirioneddol ar gyfer y ddau gyfnod dilynol a gyllidir.

**2.2.3.** Mae angen i ysgolion roi manylion ynghylch y gwariant a'r incwm a ragwelir i'r Cyngor, yn y ffurf ac, ar adegau, fel y pennir gan y Swyddog Adran 151.

**2.2.4.** Bydd y Cyngor yn rhoi adroddiadau rheolaidd i bob ysgol yn dangos ei safle ariannol ar yr adeg honno a datganiad alldro diwedd blwyddyn yn unol â rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Addysg.

## 2.3. Talu Cyflogau: Talu Biliau

**2.3.1.** Bydd yr holl gyflogau, pensiynau a thaliadau eraill i bob aelod staff, presennol a blaenorol, yn cael eu gwneud gan, neu dan drefniadau a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151.

## 2.4. Rheoli Asedau a chofrestri rhestri

**2.4.1.** Mae Mae'n ofynnol i ysgolion gadw rhestr o unrhyw asedau symudol sy'n werth mwy na £250.

**2.4.2.** Rhaid i ysgolion gynnal archwiliad ffisegol blynyddol o eitemau a restrir ar y rhestr a rhoi camau ar waith mewn perthynas ag unrhyw arian dros ben neu ddiffygion. Rhaid hysbysu'r Pennaeth Cyllid am unrhyw anghysonderau tybiedig drwy'r adran archwilio.

**2.4.3.** Rhaid diweddaru'r rhestr yn barhaus ar gyfer caffaeliadau a gwarediadau newydd.

**2.4.4.** Rhaid i'r rhestr gael ei gwirio a'i hardystio o leiaf yn flynyddol.

**2.4.5.** Rhaid i bob ased gael ei farcio fel eiddo ysgol cyn belled ag y bo modd.

**2.4.6.** Rhaid i ysgolion sicrhau nad yw asedau'n cael eu symud oddi ar safle'r ysgol ac eithrio yn unol â busnes arferol yr ysgol.

**2.4.7.** Caiff y gweithdrefnau awdurdodi ar gyfer caffael a gwaredu y dylai ysgolion eu mabwysiadu eu nodi yng nghanllaw'r Swyddog Adran 151.

**2.4.8.** Mae croeso i ysgolion bennu eu trefniadau eu hunain ar gyfer cadw cofnod o asedau sy'n werth llai na'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor. Rhaid i'r rhestr fodloni yswirwyr.

**2.4.9.** Rhaid cynnwys y wybodaeth a nodir ar Gofrestr Rhestr Asedau Ysgolion. Gall ysgolion lunio eu templed rhestr eu hunain ar yr amod bod y wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys. Fel arall, bydd templed Excel yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cyllid Dysgu a Sgiliau ar gais.

- Enw'r ysgol
- Enw'r person sy'n paratoi'r rhestr
- Dyddiad paratoi'r rhestr
- Rhif cyfresol
- Gwneuthuriad/Model
- Enw'r ased/offer
- Disgrifiad
- Nifer
- Dyddiad caffael
- Dyddiad Gosod
- Pris prynu
- Adran
- Lleoliad
- Dyddiad cael gwared â'r offer
- Gwerth ailwerthu (os yw'n berthnasol)
- Nodiadau

## 2.5. Polisïau Cyfrifo (gan gynnwys polisïau diwedd blwyddyn)

**2.5.1.** Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am baratoi ei gynllun gwariant blynyddol ac am ddarparu datganiadau ariannol rheolaidd.

**2.5.2.** Rhaid i gyrff llywodraethu lynu wrth Reolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor, ac i gyflawni hyn, rhaid iddynt gydymffurfio â'r gweithdrefnau cyfrifo a ragnodir gan y Swyddog Adran 151.

**2.5.3.** Caiff cyfrifon y Cyngor eu cynnal ar sail croniadau, e.e. caiff incwm a gwariant eu cofnodi yng nghyfrifon yr ysgolion ar adeg eu hennill neu eu gwario, ac nid pan gaiff yr arian ei dderbyn na'i dalu.

**2.5.4.** Bydd Adran Gyllid Dysgu a Sgiliau yn cyflwyno gweithdrefnau diwedd blwyddyn i bob ysgol ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol ar ran y Swyddog Adran 151.

**2.5.5.** Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys eitemau megis arian parod, dyledwyr a chredydwyr. Rhaid glynu wrth y gweithdrefnau hyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau disgyblu.

## 2.6. Dileu Dyledion

**2.6.1.** Dylai unrhyw ddyledion na ellir eu hadennill gael eu cyfeirio at y Swyddog Adran 151. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw mewn perthynas â dyled sy'n codi o gasglu incwm prydau ysgol.

**2.6.2.** Cynghorir ysgolion i fabwysiadu polisi rheoli dyled ar gyfer casglu incwm prydau ysgol a dylai hyn fod ar gael i rieni.

**2.6.3.** Os bydd Corff Llywodraethu yn penderfynu dileu dyled prydau ysgol unigolyn, bydd y tâl hwn yn cael ei godi yn erbyn cyfran yr ysgol o'r gyllideb ddirprwyedig. Rhaid cyfeirio dyled prydau ysgol dros £50 at adran gyllid Dysgu a Sgiliau a fydd yn anfon anfoneb i rieni am yr arian cinio heb ei dalu. Y Swyddog Adran 151 yn unig all ddileu dyledion prydau ysgol na ellir eu hadennill sydd dros £50.

**2.6.4.** Bydd unrhyw ddyledion sy'n cael eu dileu gan y Swyddog Adran 151 yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ddirprwyedig.

## 2.7. Sail y Cyfrifo

**2.7.1.** Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail croniadau, ac er bod yr ysgol yn gweithredu system arian parod, rhaid i'r holl adroddiadau i'r Cyngor gael eu gwneud ar sail croniadau.

## 2.8. Cyflwyno Cynlluniau Cyllideb

**2.8.1.** Ar ôl i'r corff llywodraethu gael ei hysbysiad swyddogol o'i gyfran o'r gyllideb, gall pennu cynllun cyllideb ar gyfer yr ysgol yn ôl yr adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys unrhyw falensau gwarged/diffyg sydd wedi'u dwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

**2.8.2.** Rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau erbyn 31 Mai bob blwyddyn o'i gynllun gwario a'r rhagdybiaethau a wnaed

i gefnogi'r cynllun hwnnw. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cyflwyno i adran gyllid Dysgu a Sgiliau.

**2.8.3.** Bydd y Cyngor yn rhoi data incwm a gwariant sydd ganddo i'r ysgol, sydd ei angen i helpu'r ysgolion i gynllunio'n effeithlon. Bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn rhagnodi fformat yr hysbysiad.

**2.8.4.** Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod gwariant ond yn digwydd o fewn y cynllun gwario y cytunwyd arno.

**2.8.5.** Bydd y corff llywodraethu/y Pennaeth yn rhoi gwybod i adran gyllid Dysgu a Sgiliau am unrhyw newidiadau i'r cynllun gwario a gymeradwywyd erbyn 31 Mai wrth iddynt godi. Bydd hyn yn golygu y gall y wybodaeth yn yr adroddiadau a'r datganiadau ariannol gael ei diweddaru.

**2.8.6.** Bydd angen i bob ysgol lunio adroddiadau ariannol yn rheolaidd, fel y rhagnodir gan y Swyddog Adran 151, yn dangos yr incwm refeniw a'r gwariant sydd wedi digwydd hyd y dyddiad hwnnw ac unrhyw ymrwymiadau sydd wedi dod i law, ond heb gael eu talu eto. Dylai hyn alluogi iddo ragweld ei sefyllfa ariannol drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau ei fod yn gwario yn ôl ei gynllun. Dylai'r rhain gael eu cyflwyno i adran gyllid Dysgu a Sgiliau.

## 2.9. <u>Trosglwyddiadau</u>

**2.9.1.** Gallai'r corff llywodraethu ddirprwyo'r gallu i'r Pennaeth drosglwyddo arian o un pennawd gwariant i llall. Mae'n bosibl y byddai'r corff llywodraethu'n dymuno gosod terfyn ar drosglwyddiadau o'r fath.

**2.9.2.** Bydd y gallu i arfer y trosglwyddiadau hyn yn berthnasol i bob pennawd oni bai am eitemau a glustnodwyd lle mae'r gyllideb wedi'i rhoi at ddiben penodol.

## 2.10. <u>Archwiliad: Cyffredinol</u>

**2.10.1.** Mae ysgolion yn destun trefn archwilio mewnol y Cyngor a threfn archwilio allanol y Cyngor, fel y pennir gan yr archwilwyr a benodir ac mae rhaid iddynt gydweithredu â'r trefniadau hyn.

**2.10.2.** Rhaid i ysgolion gydweithredu â'r archwilwyr mewnol ac allanol fel y pennir gan Reoliadau Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a gofynion statudol.

## 2.11. Archwiliadau Allanol

**2.11.1.** Mae'r Cyngor, ac felly'r ysgolion, yn destun archwiliad allanol parhaus o weithredoedd ariannol a gweithredol cysylltiedig y Cyngor. Gallai hyn gynnwys ymweliadau sampl ag ysgolion.

**2.11.2.** Caniateir i gorff llywodraethu wario arian o'i gyfran o'r gyllideb i gael ardystiad archwiliad allanol o'i gyfrifon, ar wahân i unrhyw broses archwilio fewnol neu allanol y Cyngor.

## 2.12. Archwilio cronfeydd gwirfoddol, answyddogol neu breifat

**2.12.1.** Bydd y corff llywodraethu neu'r Pennaeth yn hysbysu'r Swyddog Adran 151 (drwy'r adran archwilio) o bob cronfa wirfoddol a phreifat a gynhelir ar ran yr ysgol, gan gynnwys cronfeydd yr ysgol, cronfeydd y gymdeithas rhieni ac athrawon a chronfeydd ymddiriedolaeth.

**2.12.2.** Bydd y corff llywodraethu yn gyfrifol am reoli ac archwilio'r holl gronfeydd a bydd yn llunio gweithdrefnau a rheoliadau ar gyfer gweithredu cronfeydd o'r fath.

**2.12.3.** Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr holl bobl berthnasol sy'n gyfrifol am weithredu cronfeydd o'r fath yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r rheoliadau hyn.

**2.12.4.** Rhaid i'r ysgol gyflwyno tystysgrifau archwilio blynyddol mewn perthynas â holl gronfeydd o'r fath a chyfrifon unrhyw sefydliadau masnachu a reolir gan yr ysgol. Bydd unrhyw ysgol sy'n gwrthod cyflwyno tystysgrifau archwilio i'r Swyddog Adran 151 yn ôl gofynion y cynllun yn mynd yn groes i'r cynllun a gall y Swyddog Adran 151 gymryd camau fel sy'n briodol.

## 2.13. Cofrestru Buddiannau Busnes

**2.13.1.** Rhaid i'r corff llywodraethu lunio cofrestr sy'n rhestru unrhyw fuddiannau busnes sydd gan unrhyw aelod o'r corff llywodraethu neu'r Pennaeth, neu unrhyw aelod o'u teulu agos.

**2.13.2.** Rhaid i'r corff llywodraethu gadw cofrestr gyfredol gan roi gwybod am unrhyw newidiadau ac edrych dros y cofnodion yn flynyddol. Argymhellir y dylid gwneud hyn yn ystod cyfarfod llawn gyntaf y corff llywodraethu yn y flwyddyn academaidd a dylai'r gofrestr gael ei chadw yn yr ysgol at y diben hwn.

**2.13.3.** Bydd y corff llywodraethu yn gwneud y gofrestr ar gael i lywodraethwyr, staff, rhieni a'r Cyngor.

## 2.14. Gofynion Caffael, Tendro a Chontractio

**2.14.1.** Oni bai am ofynion deddfwriaeth y DU, Cytuniad y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a chyfarwyddiadau perthnasol; rhaid glynu wrth Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, ei Reolau Gweithdrefnau Contract a'r Cod Ymarfer Caffael bob tro y mae'r corff llywodraethu yn gwneud contract ar gyfer gwaith, nwyddau neu wasanaethau.

**2.14.2.** Rhaid i bob ysgol ddilyn canllaw Caffael y Cyngor ar gyfer ysgolion, ei Reolau Gweithdrefnau Ariannol a'i Reolau Gweithdrefnau Contract wrth gaffael, tendro a chontractio, oni bai bod rheoliadau a rheolau sefydlog yn gofyn i'r ysgol:

- wneud unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaethau'r cynllun neu unrhyw ddarpariaeth statudol neu unrhyw gyfarwyddyd caffael yr Undeb Ewropeaidd;
- ceisio cydlofnod y Cyngor gan bennaeth y gwasanaethau cyfreithiol am unrhyw gontractau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau dros £75,000;
- gwahodd o leiaf tri thendr mewn perthynas ag unrhyw gontractau â gwerth yn fwy na'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor.

**2.14.3.** Rhaid i bob ysgol asesu cymhwysedd iechyd a diogelwch contractwyr ymlaen llaw, lle bo hynny'n bosibl, gan ystyried polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

## 2.15. Gweithredu Contractau i Ysgolion

**2.15.1.** Os bydd ysgol yn rhan o unrhyw drefniadau a wnaed gan y Cyngor ar ran yr ysgol, naill ai'n unigol neu ag ysgolion eraill, bydd yr ysgol wedi'i rhwymo i'r trefniant hwnnw nes iddo ddod i ben. Os yw'r Cyngor wedi gwneud contract ar gyfer gwaith i ddarparu gwasanaethau neu gyflenwi'r ysgol cyn y cynllun hwn, bydd yr ysgol wedi'i rhwymo i'r contract hwnnw nes iddo ddod i ben.

**2.15.2.** Mae'r Cyngor yn aelod o Gonsortiwm Prynu Cymru sydd wedi trefnu contractau ar gyfer swmp gyflenwi nwyddau a gwasanaethau cyffredin yn seiliedig ar rym prynu ar y cyd yr awdurdodau unedol.

**2.15.3.** Er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl i unrhyw gontract ddod i ben, bydd y Cyngor yn parhau i osod contractau newydd i gynnal y trefniant swmp brynu ar yr amod na fydd unrhyw gontract yn cael ei wneud nad yw'n cynrychioli'r cynnig mwyaf buddiol yn ariannol.

**2.15.4.** Petai ysgol yn dymuno optio allan o unrhyw drefniadau o'r fath, gall wneud hynny drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor o leiaf chwe mis cyn i'r trefniant perthnasol ddod i ben. Mae angen rhybudd o'r fath ar y Cyngor er mwyn iddo wahodd cynigion yn seiliedig ar y gofynion swmp diwygiedig.

**2.15.5.** Er bod gan gyrff llywodraethu bŵer dan atodlen 1 Deddf Addysg 2002 i wneud contractau, gan amlaf, maent yn gwneud hynny ar ran y Cyngor fel cynhalwyr yr ysgol a pherchenogion y cronfeydd yn y gyfran o'r gyllideb. Mae rhaid i gyrff llywodraethu, felly, gydymffurfio'n llawn â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor.

## 2.16. Cronfeydd Canolog a Chlustnodi

**2.16.1.** O bryd i'w gilydd, gall y Cyngor ddyrannu arian i ysgolion yn ychwanegol at gyfran yr ysgol o'r gyllideb neu ar wahân i hynny.

**2.16.2.** Bydd unrhyw ddyraniadau o'r fath yn amodol ar delerau ac amodau sy'n nodi diben neu ddibenion yr arian hwnnw. Er nad oes angen i'r amodau eithrio trosglwyddiadau (oni bai am pan fydd y cyllid yn cael ei gefnogi gan grant penodol nad oes gan y Cyngor yr hawl i'w drosglwyddo) ni ddylai hyn gael ei gario at bwynt o gydweddu'r dyraniadau i gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

**2.16.3.** Dylai unrhyw gyllid o'r fath o gronfeydd a gynhelir yn ganolog gael ei wario ar yr hyn a gafodd ei roi ar ei gyfer ac ni cheir ei drosglwyddo i unrhyw bennawd cyllideb arall. Rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**2.16.4.** Bydd y Cyngor yn casglu unrhyw ddyraniadau o'r fath na chafodd eu gwario yn y flwyddyn ac ni fyddant yn dod yn rhan o warged/diffyg yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn, oni bai y cytunir fel arall â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau.

**2.16.5.** Ni all y Cyngor wneud unrhyw ostyngiad, mewn perthynas â chostau llog i'r Cyngor, i daliadau i ysgolion o grantiau penodol neu arbennig datganoledig.

## 2.17. Gwario at Ddibenion yr Ysgol

**2.17.1.** Yn unol ag adran 50(3) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, gall cyrff llywodraethu ond wario eu cyfran o'r gyllideb at ddibenion yr ysgol.

## 2.18. Gwariant Cyfalaf o Gyfrannau'r Gyllideb

**2.18.1.** Caniateir i gyrff llywodraethu ddefnyddio eu cyfran o'r gyllideb i dalu am wariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwariant corff llywodraethu ysgol a gynorthwyir ar waith, sy'n ddyletswydd arnynt dan baragraff 3 atodlen 3 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

**2.18.2.** Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Adran 151 am unrhyw wariant o'r fath o gyfran yr ysgol o'r gyllideb. Rhaid i'r ysgol ystyried cyngor y Swyddog Adran 151 os mae ffigur y gwariant arfaethedig yn uwch na £10,000.

**2.18.3.** Os yw'r Cyngor yn berchen ar y safle (tir a/neu adeiladau), rhaid i'r corff llywodraethu gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau ar gyfer y gwaith arfaethedig, p'un a ydyw'n waith strwythurol neu fel arall, gan gynnwys gwaith ar y tir neu newid defnydd ystafelloedd, e.e. newid ystafell ddosbarth yn fan adnoddau cyffredinol. Gellir gwrthod caniatâd o'r fath ar sail iechyd a diogelwch. Mae Protocol Caffael Ysgol ar gyfer Projectau Cyfalaf wedi'i atodi fel Atodiad 6, a dylid glynu wrtho wrth ystyried unrhyw waith o natur cyfalaf.

**2.18.4.** Dylai ysgolion geisio cyngor gan y Swyddog Adran 151 petai'r ysgol yn ystyried gosod unrhyw adeilad, offer, peiriant, cerbyd neu gyfarpar ar brydles.

**2.18.5.** Mewn unrhyw achos, rhaid i'r ysgol (y Pennaeth a'r corff llywodraethu) gydymffurfio â rheolau Gweithdrefn a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

## 2.19. Gwerth am arian

**2.19.1.** Dylai cyrff llywodraethu ddangos gwerth am arian a dilyn yr arferion caffael a amlinellwyd yn adran 2.14.

## 3. RHANDALIADAU O GYFRAN O'R GYLLIDEB: TREFNIADAU BANCIO

### 3.1. Cyffredinol

**3.1.1.** Bydd cyfrannau o'r gyllideb yn cael eu dal gan y Swyddog Adran 151 ar ran cyrff llywodraethu fel rhan o gronfa gyffredinol y Cyngor oni bai bod cyrff llywodraethu yn dewis gweithredu eu cyfrifon banc eu hunain.

**3.1.2.** Pan nad yw corff llywodraethu yn dewis cael cyfrif banc ei hun, bydd gan yr ysgol fynediad i'w holl gyfran o'r gyllideb o ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bydd cyfrannau o'r gyllideb yn cael eu cadw'n ganolog i fodloni gwariant gan ysgolion ac yn cael eu talu allan o gyfrif banc y Cyngor.

**3.1.3.** Pan fydd corff llywodraethu yn dewis gweithredu ei gyfrif banc ei hun, rhaid iddo gydymffurfio â gofynion y Cynllun Talu Lleol ar gyfer Ysgolion sy'n ategu'r Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion.

**3.1.4.** Cyflogeion y Cyngor (Ysgol) yn unig y caniateir iddynt fod yn llofnodwyr ar gyfrifon banc. Mae angen dau lofnodwr ar bob siec (ceir mwy o fanylion ym mharagraff 5 "Cynllun Talu Lleol ar gyfer Ysgolion" y Cyngor sy'n ategu Rheoliadau Ariannol y Cyngor ar gyfer Ysgolion).

**3.1.5.** Caniateir i ysgolion gadw unrhyw log ar y cyfrif. Telir ysgolion mewn deg rhandaliad o fis Ebrill i fis Ionawr.

**3.1.6.** Gellir ond agor cyfrifon newydd: -

- ar ddechrau'r flwyddyn ariannol
- gyda rhybudd o bedwar mis

**3.1.7.** Os gall yr ysgol ddangos y bydd yn gorffen y flwyddyn, yn arwain at gael ei chyfrif banc ei hun, yn fantoli'r gyllideb neu â gwarged. Bydd y Cyngor yn cytuno ar swm i'w drosglwyddo â'r ysgol sy'n cynrychioli ei balans rhagamcanol, ar y sail y bydd cywiriad dilynol pan fydd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ysgol berthnasol yn dirwyn i ben. Petai ysgol mewn sefyllfa o orwariant (diffyg), gwrthodir ei chais am ei chyfrif ei hun tan bod y diffyg yn cael ei glirio ac o leiaf tan ddechrau blwyddyn ariannol newydd.

**3.1.8.** Os bydd ysgol yn cau cyn diwedd y flwyddyn ariannol, caniateir i'r ysgol wario'r gyfran o'i chyllideb ar gyfer nifer y misoedd y mae wedi bod ar agor y flwyddyn honno.

### 3.2. Benthyca gan Ysgolion

**3.2.1.** Gall cyrff llywodraethu fenthyg arian â chaniatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn unig.

**3.2.2.** Dylai unrhyw gorff llywodraethu sy'n ystyried cam o'r fath roi gwybod i'r Swyddog Adran 151 am ei fwriad a'r canlyniad.

## 4. YMDRIN Â BALANSAU GWARGED A DIFFYG SY'N CODI MEWN PERTHYNAS Â CHYFRANNAU O'R GYLLIDEB

### 4.1. Yr Hawl i Gario Ymlaen Balansau Gwarged

**4.1.1.** Caiff ysgolion gario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall unrhyw danwariant ar ei chyfran o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gan ychwanegu/dynnu unrhyw falans a gafodd ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

**4.1.2.** Bydd unrhyw falans sy'n cael ei ddal yn ganolog gan y Cyngor ar ddiwedd un flwyddyn ariannol, nad yw'n rhan o gyfrif banc yr ysgol, yn cael ei drosglwyddo i gyfrif banc yr ysgol gyda rhandaliad cyntaf y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar y sail bod yna gywiriad dilynol pan fydd cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'r balans yn ymwneud â hi yn cael eu cau.

### 4.2. Adrodd ar y Defnydd Bwriadedig o Falansau Gwarged

**4.2.1.** Ni ddylai ysgolion gronni'r hyn a all ymddangos yn wargedau gormodol, mwy na 5% o gyfran o'r gyllideb neu £10,000, pa un bynnag yw'r mwyaf, heb reswm da.

**4.2.2.** Rhaid i gyrff llywodraethu roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau am y defnydd y mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o falensau gwarged sy'n fwy na 5% o'r gyfran o'r gyllideb neu £10,000, pa un bynnag yw'r mwyaf. (Paragraff 19-Atodlen 4-Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010).

**4.2.3.** Gall y Cyngor gyfarwyddo'r corff llywodraethu o ran sut i wario gwarged ar falans ysgol am gyfnod ariannu os yw'n fwy na

- £50,000, yn achos ysgol feithrin neu ysgol gynradd
- £100,000 yn achos ysgol uwchradd neu ysgol arbennig (Paragraff 20-Atodlen 4- Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010).

**4.2.4.** Gall y Cyngor, os nad yw'r corff llywodraethu'n cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, ofyn i'r corff llywodraethu dalu'r warged gyfan neu ran o'r warged honno i'r Cyngor i'w weithredu fel rhan o gyllideb yr ysgol ar gyfer y cyfnod ariannu dan sylw. (Paragraff 20-Atodlen 4-Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010).

## 4.3. Llog ar Falensau Gwarged

**4.3.1.** Ni fydd balansau gwarged a gynhelir gan y Swyddog Adran 151 yn denu llog yn awtomatig.

**4.3.2.** Petai corff llywodraethu am i'w warged ddenu llog yna dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Adran 151 yn nodi faint y mae'n dymuno ei fuddsoddi a'r cyfnod rhybudd, naill ai un mis neu dri, sy'n effeithio ar y gyfradd llog a geir, h.y. mae'r buddsoddiadau â thri mis o rybudd yn ennill cyfradd uwch na'r buddsoddiadau un mis.

## 4.4. Rhwymedigaeth i Gario Balansau Diffyg Ymlaen (Diffygion Trwyddedig)

**4.4.1.** Os yw ysgol yn gorwario ei chyfran o'r gyllideb mewn unrhyw flwyddyn ariannol, bydd rhaid talu am y gorwariant (y diffyg) naill ai drwy falansau nas gwariwyd sy'n cael eu dwyn ymlaen, neu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**4.4.2.** Dylai cyrff llywodraethu sydd mewn sefyllfa diffyg nas gynlluniwyd gyflwyno cynlluniau i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn manylu ar sut y bydd yn ymdrin â'r diffyg dros gyfnod nad yw'n fwy na phum mlynedd.

**4.4.3.** Ni ddylai ysgolion gynllunio i orwario, ond gallant wneud hynny ar ôl ymgynghori'n llawn â chael cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Rhaid i unrhyw gytundeb o'r fath fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau.

**4.4.4.** Ni all y Cyngor ddileu balansau diffyg.

**4.4.5.** Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadw'r hawl i godi llog ar falansau diffyg. Petai hynny'n digwydd, bydd ysgolion yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw.

## 4.5. Balansau Ysgolion sy'n Cau ac Ysgolion Newydd

**4.5.1.** Pan fydd ysgol yn cau, bydd unrhyw falans (naill ai gwarged neu ddiffyg) yn dychwelyd i'r Cyngor; ni all gael ei drosglwyddo fel balans i ysgol arall, hyd yn oed pan fydd yr ysgol yn dod yn lle'r ysgol sy'n cau.

**4.5.2.** Pan fydd ysgolion yn cyfuno bydd y Cyngor yn ystyried trosglwyddo'r balans i'r ysgol newydd.

## 5. INCWM

### 5.1. Incwm o Osod Eiddo

**5.1.1.** Bydd modd i ysgolion gadw incwm o osod eiddo'r ysgol a fyddai fel arall yn eiddo i'r Cyngor.

**5.1.2.** Ni ddylai incwm a godir drwy osod eiddo gael ei dalu i gronfa wirfoddol, preifat neu unrhyw gronfa answyddogol arall a gynhelir gan yr ysgol. Rhaid i'r incwm gael ei dalu'n amserol ac yn uniongyrchol i gyfrif banc y Cyngor neu brif gyfrif banc yr ysgol ar gyfer ysgolion sy'n cael eu rheoli gan lyfrau siec.

**5.1.3.** Bydd modd i ysgolion gymorthdalu ar gyfer gosod eiddo at ddefnydd gwirfoddol neu gymunedol drwy ddefnyddio incwm a geir o osod eiddo eraill os nad oes unrhyw gost net i'r gyfran o'r gyllideb.

**5.1.4.** Bydd angen i ysgolion ystyried unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cyngor o ran defnydd o safle'r ysgol.

### 5.2. Incwm Prydau Ysgol

**5.2.1.** Cynghorir ysgolion i fabwysiadu'r defnydd o system daliadau rhieni i gasglu incwm prydau ysgol er mwyn lleihau arian parod ar safle'r ysgol.

**5.2.2.** Yn gyffredinol, dylid talu am brydau ysgol ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae adegau lle y bydd yn angenrheidiol caniatáu i ddisgybl fynd i ddyled. Mae'r ysgolion, felly, yn cael eu cynghori i fabwysiadu polisi rheoli dyled ar gyfer casglu incwm prydau ysgol a ddylai gael ei gyflwyno i adran archwilio fewnol y Cyngor ar gais.

**5.2.3.** Bydd unrhyw ddyledion prydau ysgol sy'n cael eu dileu yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

### 5.3. Incwm o Ffioedd a Thaliadau

**5.3.1.** Caniateir i ysgolion gadw incwm o ffioedd a thaliadau oni bai pan fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor o gronfeydd a gedwir yn ganolog.

**5.3.2.** Ni ddylai incwm a godir drwy ffioedd a thaliadau gael ei dalu i gronfa wirfoddol, preifat nac unrhyw gronfa answyddogol arall a gynhelir gan yr

ysgol. Rhaid i'r holl incwm gael ei dalu'n amserol ac yn gyflawn i gyfrif banc y Cyngor neu brif gyfrif banc yr ysgol ar gyfer ysgolion sy'n cael eu rheoli gan lyfrau siec. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd incwm yn cael ei godi drwy weithgaredd i godi arian, e.e. Cronfa'r ysgol neu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon e.e. teithiau

**5.3.3.** Dylai ysgolion roi ystyriaeth i bolisi codi tâl y Cyngor.

**5.3.4.** Dylai ysgolion lynu wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi tâl ar weithgareddau ysgol a gweithgareddau ychwanegol dewisol.

**5.3.5.** Ni all unrhyw daliadau mewn perthynas â gweithgareddau ysgol a gweithgareddau ychwanegol dewisol fod yn fwy na chost wirioneddol y gweithgaredd hwnnw.

**5.3.6.** Ni ddylai corff llywodraethu godi tâl ar rieni am unrhyw beth oni bai ei fod wedi mabwysiadu polisi codi tâl a pheidio â chodi tâl.

## 5.4. Incwm o Weithgareddau Codi Arian

**5.4.1.** Caiff ysgolion gadw incwm sy'n cael ei greu gan weithgareddau codi arian.

## 5.5. Incwm o Werthu Asedau

**5.5.1.** Gall ysgol gadw incwm sy'n cael ei greu drwy werthu asedau a brynwyd o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, nid mewn cronfa answyddogol, a rhaid ei ddefnyddio er budd yr ysgol.

**5.5.2.** Mewn achosion lle prynwyd yr asedau ag arian canolog, dylai'r incwm ddychwelyd i'r Cyngor oni bai bod y Cyngor yn penderfynu fel arall. Dylid ymgynghori â'r Cyngor cyn gwerthu neu gael gwared ar eitemau o'r fath.

**5.5.3.** Nid oes gan y corff llywodraethu unrhyw awdurdod i gael gwared ar/gwerthu tir, adeiladau neu offer sy'n eiddo i'r Cyngor.

## 5.6. Gweithdrefnau Gweinyddol ar gyfer Casglu Incwm

**5.6.1.** Rhaid i'r holl incwm gael ei dalu'n amserol ac yn gyflawn i gyfrif banc y Cyngor neu brif gyfrif banc yr ysgol ar gyfer ysgolion sy'n cael eu rheoli gan lyfrau siec. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd incwm yn cael ei godi drwy weithgaredd i godi arian, e.e. Cronfa'r ysgol neu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon e.e. teithiau

**5.6.2.** Bydd gweithdrefnau casglu incwm yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor fel y cyflwynir gan y Swyddog Adran 151.

**5.6.3.** Bydd cofnodion yn cael eu cynnal mewn ffurf a bennir gan y Swyddog Adran 151.

**5.6.4.** Bydd ysgolion yn gyfrifol am gasglu eu hincwm eu hunain oni bai eu bod yn dymuno defnyddio gweithdrefn adennill dyled y Cyngor. Codir tâl am ddefnyddio'r weithdrefn hon a fydd yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb. Bydd y tâl yn cael ei bennu gan y Swyddog Adran 151.

**5.6.5.** Bydd rhaid i bob ysgol sy'n gweithredu cyfrifon banc ar wahân gyflwyno datganiadau misol i adran gyllid Dysgu a Sgiliau yn manylu ar unrhyw ddyledion sy'n weddill.

**5.6.6.** Byddai'r Swyddog Adran 151 yn dymuno sicrhau bod yr holl gamau posibl wedi cael eu cymryd i adennill y symiau sy'n ddyledus.

**5.6.7.** Y Swyddog Adran 151 yw'r unig Swyddog a all argymell dileu dyledion. Bydd unrhyw ddyled i'w ddileu yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb. Yr unig eithriad i hyn yw dileu dyledion prydau ysgol fel yr amlinellir ym mharagraff 2.6.

## 5.7. <u>Incwm o ddarpariaethau gofal plant cofrestredig a ddarperir gan ysgolion</u>

**5.7.1.** Pan fydd ysgolion yn cynnig darpariaeth gofal plant cofrestredig i rieni, gellir talu incwm naill ai'n uniongyrchol i brif gyllideb yr ysgolion a chyfrif banc y Cyngor, neu i gronfa ar wahân, gyda chaniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Bennaeth Strategaeth ac adnoddau.

**5.7.2.** Rhaid i unrhyw incwm a delir yn uniongyrchol i gronfa ar wahân gael ei drosglwyddo i gyllideb ysgolion a chyfrif banc y Cyngor yn fisol. Dylai'r incwm hwn gael ei nodi'n glir a chael ei storio ar god cost unigryw yn y llyfr cyfrifon.

**5.7.3.** Rhaid i gyfriflenni a chysoniadau banc gael eu cyflwyno i adran gyllid addysg yn fisol ynghyd â chofnodion cyfrifyddu llawn o'r incwm a gafwyd, yn ogystal â dyledion a thaliadau ymlaen llaw.

**5.7.4.** Dylai costau staffio gael eu nodi'n glir a'u codio i god cost ar wahân ar y llyfr cyfrifon.

**5.7.5.** Dylai gwariant sy'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i ddarpariaeth gofal plant cofrestredig, megis adnoddau, gael ei nodi ar wahân ar y llyfr cyfrifon.

**5.7.6.** Bydd unrhyw elw net sy'n cael ei greu yn cael ei gadw gan yr ysgol ac ar falans swyddogol yr ysgol i'w ddefnyddio er budd yr ysgol. Ni ddylid cronni elw na'i gadw mewn cronfa ar wahân.

**5.7.7.** Rhaid rhoi cofnodion cyfrifyddu llawn a thrywydd archwilio o unrhyw symudiad ar y gronfa ar wahân yn flynyddol i'r tîm cyllid addysg i'w harchwilio yn unol ag amserlen flynyddol cau cyfrifon.

**5.7.8.** Ni chaniateir i ysgolion ddefnyddio cyllid addysg i gefnogi colled ar ddarpariaeth gofal plant. Rhaid i ysgolion sicrhau bod taliadau gofal plant yn ddigon i dalu am gost y ddarpariaeth.

## 6. CODI TÂL AR GYLLIDEBAU YSGOLION

### 6.1. Darpariaeth Gyffredinol

**6.1.1.** Gall y Cyngor godi tâl ar gyfran yr ysgol o'r gyllideb heb gael caniatâd gan y corff llywodraethu mewn amgylchiadau a ganiateir gan y cynllun yn benodol (gweler 6.2). Rhaid i'r Cyngor ymgynghori â'r ysgol ynghylch y tâl a godir a rhoi gwybod i'r ysgol ar ôl gwneud y tâl.

**6.1.2.** Gall y Cyngor godi tâl am gyflogau a chostau cysylltiedig holl staff sy'n seiliedig yn yr ysgol ar gyfrannau'r ysgolion o'r gyllideb am y gost wirioneddol.

**6.1.3.** Os bydd anghydfod yn sgil tâl yn cael ei godi ar gyfran yr ysgol o'r gyllideb, bydd yr anghydfod, yn gyntaf, yn cael ei gyfeirio at y Swyddog Adran 151. Gwneir unrhyw apêl, gan y naill barti, i banel annibynnol a sefydlwyd at ddibenion o'r fath.

### 6.2. Amgylchiadau lle gellir codi taliadau ar gyllidebau dirprwyedig

**6.2.1.** Pan godir costau ymddeoliad cynnar heb gytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw â'r Cyngor i dalu costau o'r fath (gyda'r swm sy'n daladwy yn fwy nag unrhyw swm y cytunwyd iddo gan y Cyngor) Bydd Ysgolion yn talu costau'r ymddeoliadau cynnar oni bai y cytunir fel arall.

**6.2.2.** Codwyd gwariant arall i sicrhau ymddiswyddiad ac ni wnaeth yr ysgol ddilyn awgrymiadau'r Cyngor.

**6.2.3.** Dyfarniadau gan lysoedd a thribiwnlysoedd diwydiannol yn erbyn y Cyngor sy'n codi o weithred neu ddiffyg gweithred gan y corff llywodraethu ac yn mynd yn groes i awgrymiadau'r Cyngor ar ôl ystyried darpariaeth adran 60(5) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion.

**6.2.4.** Gwariant gan y Cyngor wrth ymgymryd â gwaith iechyd a diogelwch y mae'r Cyngor yn atebol amdano, lle mae'r arian wedi cael ei ddirprwyo i'r corff llywodraethu fel rhan o'i gyfran o'r gyllideb, ond mae'r corff llywodraethu wedi methu â chynnal y gwaith angenrheidiol.

**6.2.5.** Gwariant a godir gan y Cyngor er mwyn unioni diffygion yn y gwaith adeiladu a ariennir gan wariant cyfalaf o'r cyfrannau o'r gyllideb, lle mae'r safle'n eiddo'r Cyngor.

**6.2.6.** Gwariant a godir gan y Cyngor wrth yswirio ei fuddion ei hun yn yr ysgol lle mae cyllido wedi cael ei ddirprwyo, ond mae'r ysgol wedi methu â

dangos ei bod wedi trefnu yswiriant sydd llawn mor dda, os nad yn well, na'r hyn y byddai'r Cyngor wedi'i drefnu.

**6.2.7.** Adennill arian sy'n ddyledus gan ysgol am wasanaethau i'r ysgol, lle mae anghydfod ynghylch yr arian wedi cael ei gyfeirio at weithdrefn anghydfodau a nodwyd yn y cytundeb lefel gwasanaeth, a'r canlyniad i hynny yw bod yr ysgol mewn dyled ariannol i'r Cyngor.

**6.2.8.** Adennill cosbau a roddir ar y Cyngor gan Fwrdd Cyllid y Wlad, yr Asiantaeth Cyfraniadau neu Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn sgil esgeulustod ar ran yr ysgol.

**6.2.9.** Adennill unrhyw gosbau neu ffioedd yn sgil ymyrraeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle mae'r ysgol wedi methu â dilyn cyngor/polisi/gweithdrefnau'r Cyngor neu o ganlyniad i esgeulustod ar ran yr ysgol.

**6.2.10.** Unioni, â rheswm, gwallau'r Cyngor wrth gyfrifo taliadau i gyfran o'r gyllideb e.e. didyniadau pensiwn.

**6.2.11.** Costau trafnidiaeth ychwanegol a godwyd gan y Cyngor yn sgil penderfyniadau gan y corff llywodraethu/Pennaeth yn ystod y diwrnod ysgol, a methu â rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiwrnodau heb ddisgyblion sy'n arwain at gostau trafnidiaeth diangen.

**6.2.12.** Costau cyfreithiol a godwyd gan y Cyngor gan na wnaeth y corff llywodraethu dderbyn cyngor y Cyngor.

**6.2.13.** Y gost o hyfforddiant iechyd a diogelwch diangen i staff gan y Cyngor, lle mae'r cyllid ar gyfer hyfforddiant wedi cael ei ddirprwyo, ond nad yw'r hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei gynnal.

**6.2.14.** Iawndal a dalwyd i fenthyciwr lle mae ysgol yn mynd i gontract am fenthyca sydd y tu hwnt i'w bwerau cyfreithiol, ac nid yw'r contract yn cael unrhyw effaith.

**6.2.15.** Y gost o'r gwaith a wneir mewn perthynas â thalu pensiwn athrawon a chofnodion ar gyfer ysgolion sy'n defnyddio contractwyr cyflogres nad ydynt yn rhai'r Cyngor. Y gost fydd yr isafswm i'w dalu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'i ymrwymiadau statudol.

**6.2.16.** Y costau a godwyd gan y Cyngor wrth sicrhau darpariaeth a nodwyd mewn datganiad Anghenion Addysg Arbennig lle mae corff llywodraethu ysgol yn methu â sicrhau darpariaeth o'r fath er gwaethaf dirprwyo'r cyllid mewn perthynas â'r datganiad hwnnw.

**6.2.17.** Costau a godwyd gan y Cyngor ar ôl i'r ysgol gyflwyno data anghywir.

**6.2.18.** Adennill symiau a wariwyd o grantiau penodol ar bethau anghymwys.

**6.2.19.** Costau a godwyd gan y Cyngor ar ôl i'r corff llywodraethu fynd yn groes i delerau'r contract.

**6.2.20.** Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn dilyn cyngor y Cyngor; bydd methu â gwneud hynny yn golygu y bydd rhaid i'r ysgol dalu am unrhyw gostau sy'n codi o weithredu neu ddiffyg gweithredu, beth bynnag yw'r amgylchiadau. Nid yw'r uchod yn hollgynhwysol a byddant yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd gan y Cyngor yn dilyn ymgynghoriad llawn â'r holl bartïon â diddordeb a bydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## 7. TALU TRETH

### 7.1. Treth Ar Werth (TAW)

**7.1.1.** Bydd unrhyw TAW sy'n cael ei adennill yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r ysgol dan sylw. I gael canllawiau manwl ar ddelio â TAW, cyfeiriwch at y fanyleb TAW a gyflwynwyd gan y Swyddog Adran 151, a fydd yn gallu cynnig cyngor, arweiniad ac esboniad pellach.

### 7.2. Cynllun Diwydiant Adeiladu

**7.2.1.** Rhaid i ysgolion lynu wrth y gweithdrefnau a gyflwynodd y Cyngor mewn perthynas â'r Cynllun Diwydiant Adeiladu. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu y bydd unrhyw dâl cosb a gyflwynir gan Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

### 7.3. IR35

**7.3.1.** Rhaid i ysgolion lynu wrth y gweithdrefnau a gyflwynodd y Cyngor mewn perthynas â IR35. Bydd methu â gwneud hynny'n golygu y bydd unrhyw dâl cosb a gyflwynir gan Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn dod allan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

## 8. DARPARIAETH O WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU GAN Y CYNGOR

### 8.1. Darparu gwasanaethau a brynwyd yn ôl o'r Cyngor gan ddefnyddio cyllidebau dirprwyedig.

**8.1.1.** Bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor na ellir cadw'r gwariant yn ganolog ar eu cyfer yn cael eu cynnig am brisiau â'r nod o greu incwm nad yw'n llai na'r gost o ddarparu'r gwasanaethau. Rhaid i gyfanswm yr incwm fod yn ddigon i dalu am gost y gwasanaeth, hyd yn oed os codir tâl ar ysgolion yn wahanredol.

### 8.2. Darparu Gwasanaethau o Gyllidebau a Gedwir yn Ganolog

**8.2.1.** Gall y Cyngor bennu ar ba sail y bydd gwasanaethau, gan gynnwys Iawndal Ymddeoliad Cynnar a thaliadau dileu swyddi, o gronfeydd a gedwir yn ganolog, yn cael eu darparu i ysgolion.

**8.2.2.** Ni fydd y Cyngor yn gwahaniaethu ar lefel y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i wahanol gategorïau o ysgolion, oni bai bod:

- cyllid wedi cael ei ddirprwyo i rai ysgolion yn unig
- cyfiawnhad dros wahaniaethu o'r fath yn sgil gwahaniaethau mewn dyletswydd statudol.

### 8.3. Amserlen ar gyfer Darparu Gwasanaethau a Brynwyd yn ôl o'r Cyngor gan ddefnyddio Cyllidebau Dirprwyedig.

**8.3.1.** Pan fydd ysgol yn dod i drefniant i brynu gwasanaethau neu gyfleusterau gan y Cyngor, bydd telerau'r cytundeb yn cael eu nodi o fewn y llyfryn Cytundeb Lefel Gwasanaeth - Gwasanaethau i Ysgolion

### 8.4. Pecynnu

**8.4.1.** Bydd y Cyngor yn cynnig darparu gwasanaethau ar sail prynu yn ôl naill ai fel pecyn o wasanaethau neu ar sail gwasanaeth fesul gwasanaeth.

**8.4.2.** Gall ysgolion benderfynu pa wasanaeth y maent yn dymuno prynu yn ôl o'r Cyngor.

### 8.5. Cytundeb Lefel Gwasanaeth

**8.5.1.** Pan fydd gwasanaethau neu gyfleusterau yn cael eu darparu, gan y Cyngor i ysgolion, dan gytundeb lefel gwasanaeth, naill ai heb dâl neu ar

sail prynu yn ôl, bydd telerau'r cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**8.5.2.** Bydd y gwasanaeth ar gael ar sail ad hoc, yn ogystal ag ar sail Cytundeb Lefel Gwasanaeth lle bo hynny'n bosibl. Bydd y taliadau ar gyfer gwasanaethau ad hoc yn wahanol i daliadau yn y cytundeb lefel gwasanaeth.

**8.5.3.** Rhoddir gwybod i'r fforwm Cyllideb am unrhyw newidiadau sylweddol i gytundebau lefel gwasanaeth.

## 8.6. Cyllidebau cyfun

**8.6.1.** Er mwyn amddiffyn ysgolion rhag risg ariannol unigol, gall y Cyngor ddirprwyo cyllidebau newydd i ysgolion ar sail cyllidebau cyfun pan geir ymgynghoriad llawn a chytundeb gan y fforwm cyllideb.

**8.6.2.** Caiff y cyllidebau dirprwyedig hyn eu talu i gronfeydd cyfun a'u hail-ddosbarthu yn ôl yr angen.

**8.6.3.** Ar hyn o bryd, mae dwy gyllideb gyfun ar waith, sef

- Y Gronfa Anghenion Ychwanegol
- Y Gronfa Clwb Brecwast

## 8.7. Cynlluniau Mamolaeth a Chyflenwi Mewnol Hirdymor

**8.7.1.** Mae'r Cyngor yn gweithredu cynlluniau mamolaeth a chyflenwi hir dymor y gall yr ysgol ddewis eu mabwysiadu.

**8.7.2.** Rhaid i'r ffioedd a godir ar ysgolion fod yn ddigon i dalu am gostau'r cynllun a bydd yn cael ei ailosod yn flynyddol mewn ymgynghoriad â'r fforwm gyllideb.

**8.7.3.** Ni ddylai'r cynlluniau hyn greu elw, ond dylai gadw arian rhesymol wrth gefn er mwyn ateb diffyg posibl.

# 9. YSWIRIANT

## 9.1. Gwarchodaeth Yswiriant

**9.1.1.** Bydd y Swyddog Adran 151 yn gweithredu'r holl yswiriant ac yn trafod yr holl hawliadau mewn ymgynghoriad â staff/swyddogion priodol lle bo angen.

**9.1.2.** Bydd y Pennaeth yn rhoi gwybod i'r Swyddog Adran 151 am bob risg, eiddo, offer, peiriant neu gerbydau newydd sydd angen eu hyswirio ac am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yswiriannau presennol e.e. gwerthu asedau.

**9.1.3.** Rhaid i'r Pennaeth roi gwybod i'r Swyddog Adran 151 yn ysgrifenedig am unrhyw golled, atebolrwydd o ran difrod neu unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at hawliad, a lle bo angen, rhoi gwybod i'r heddlu. Rhaid i'r Pennaeth gyflwyno hawliadau yn unol â gofynion y Swyddog Adran 151.

**9.1.4.** Bydd holl gyflogeion y Cyngor yn cael eu cynnwys dan yswiriant sicrwydd cywirdeb addas.

**9.1.5.** Bydd y Cyngor yn trefnu yswiriant priodol i lywodraethwyr am unrhyw atebolrwydd posibl o ran esgeulustod tuag at gyflogeion neu drydydd partïon a godwyd yn sgil gweithredoedd a gymerwyd ganddynt gydag ewyllys da wrth arfer eu cyfrifoldebau fel llywodraethwyr.

## 10. AMRYWIOL

### 10.1. Hawl i Gael Mynediad at Wybodaeth

**10.1.1.** Rhaid i gyrff llywodraethu gyflwyno, ac eithrio adroddiadau mewnol y corff llywodraethu ynghylch materion ariannol, holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a all fod eu hangen yn rhesymol i alluogi'r Cyngor i fod yn fodlon ar sut y mae'r ysgol yn rheoli ei chyfran o'r gyllideb, neu'n ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw wariant canolog a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer yr ysgol.

### 10.2. Atebolrwydd Llywodraethwyr

**10.2.1.** Gan fod y corff llywodraethu yn gorff corfforaethol ac yn unol â thelerau adran 50(7) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, ni chodir atebolrwydd personol ar lywodraethwyr ysgolion a gynhelir wrth arfer eu pwerau i wario'r gyfran o'r gyllideb ddirprwyedig, os ydynt yn gweithredu o fewn eu pwerau, gydag ewyllys da a chyda'r un gofal a byddent yn rhoi i'w materion ariannol eu hunain.

### 10.3. Gwariant Llywodraethwyr

**10.3.1.** Gall y Cyngor ddirprwyo arian i dalu am wariant llywodraethwyr i gorff llywodraethu ysgol sydd heb gael ei chyllideb ddirprwyedig eto.

**10.3.2.** Dan Atodlen 11 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, dim ond lwfansau mewn perthynas â dibenion a nodwyd mewn rheoliadau y gellir eu talu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ddirprwyedig.

**10.3.3.** Ni cheir talu unrhyw lwfansau eraill dan y cynllun hwn.

**10.3.4.** Ni chaiff ysgolion dalu treuliau sy'n dyblygu'r rhai a dalwyd gan Lywodraeth Cymru i lywodraethwyr ychwanegol a benodwyd ganddynt i ysgolion dan fesurau arbennig.

### 10.4. Cyfrifoldeb am Gostau Cyfreithiol

**10.4.1.** Gallai'r costau cyfreithiol a godir gan y corff llywodraethu, er iddynt fod yn gyfrifoldeb y Cyngor fel rhan o'r gost o gynnal a chadw'r ysgol (oni bai eu bod yn ymwneud â chyfrifoldeb statudol llywodraethwyr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ar gyfer adeiladau) gael eu codi ar gyfran yr ysgolion o'r gyllideb ddirprwyedig oni bai bod y corff llywodraethu yn gweithredu yn unol â chyngor y Cyngor.

**10.4.2.** Mae'r costau y cyfeirir atynt yn 10.4.1 yn golygu costau achosion cyfreithiol, gan gynnwys costau a ddyfarnwyd yn erbyn y Cyngor; nid y gost am gyngor cyfreithiol a roddwyd.

**10.4.3.** Pan fydd gwrthdaro buddiannau rhwng y Cyngor a'r corff llywodraethu, gall y corff llywodraethu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, a thalu amdano gan ddefnyddio ei gyfran o'r gyllideb.

**10.5. <u>Iechyd a diogelwch</u>**

**10.5.1.** Wrth wario cyfran yr ysgol o'r gyllideb ddirprwyedig, dylai'r corff llywodraethu ystyried y dyletswyddau a roddwyd arno gan y Cyngor mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a pholisi iechyd a diogelwch y Cyngor wrth reoli'r gyfran o'r gyllideb.

**10.5.2.** Gallai'r Cyngor, dan Adran 29(5) Deddf Addysg 2002 roi cyfarwyddiadau ar faterion iechyd a diogelwch i gorff llywodraethu a phennaeth ysgol gymunedol, ysgol gymunedol arbennig, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol feithrin a gynhelir. Gellir gorfodi'r cyfarwyddiadau hyn, o ran cyrff llywodraethu, dan Adran 497 Deddf Addysg 1996, os nad ydynt yn cydymffurfio â nhw.

**10.6. <u>Hawl y Swyddog Adran 151 i Fynychu</u>**

**10.6.1.** Rhaid i gyrff llywodraethu ganiatáu i'r Swyddog Adran 151, neu ei gynrychiolydd, fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu pan fo unrhyw eitemau ar yr agenda yn berthnasol o ran arfer ei gyfrifoldebau.

**10.7. <u>Dirprwyo i Ysgol Newydd</u>**

**10.7.1.** Gall y Cyngor ddirprwyo yn ddetholus neu'n ddewisol i gyrff llywodraethu ysgolion sydd heb dderbyn eu cyllidebau dirprwyedig eto.

**10.8. <u>Disgyblion sydd Wedi'u Gwahardd yn Barhaol</u>**

**10.8.1.** Os bydd disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol o ysgol sy'n cael ei chynnwys dan y cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd cyfran yr ysgol honno o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn cael ei lleihau gan swm sy'n ofynnol yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

**10.8.2.** Os bydd ysgol yn derbyn disgybl yn ystod y flwyddyn ysgol sydd wedi cael ei wahardd yn barhaol o ysgol a gynhelir gan y Cyngor yn yr un

flwyddyn ysgol, bydd y Cyngor yn dyrannu swm i'r ysgol honno ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Fframwaith 1998 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

## 10.9. Iawndal Ymddeoliad Cynnar

**10.9.1.** Bydd y costau mewn perthynas ag ymddeoliad cynnar yn dod o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ddirprwyedig oni bai bod y Cyngor yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig i beidio â chodi tâl amdano. Bydd angen i bob ysgol ymgynghori â'r Cyngor ynghylch ymddeoliadau o'r fath.

**10.9.2.** Nid yw'r costau a godwyd gan y Cyngor mewn perthynas â diswyddo, neu at ddiben sicrhau ymddiswyddiad, unrhyw aelod o staff mewn ysgol a gynhelir yn dod allan o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol oni bai bod gan y Cyngor reswm da dros dynnu'r rhain o'r gyllideb honno. Gall rhesymau o'r fath gynnwys mynd yn groes i gyngor penodol gan y Cyngor, neu wneud taliadau a oedd yn ormodol mewn perthynas ag arferion y Cyngor ei hun.

## 10.10. Anghenion Addysgol Arbennig

**10.10.1.** Rhaid i ysgolion ddefnyddio eu hymdrechion gorau wrth wario eu cyfran o'r gyllideb i sicrhau darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Dylai ysgolion gyflwyno achosion ar gyfer cyllid i'r Panel Anghenion Ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd â lefel uwch o anghenion a nodwyd yn unol â gweithdrefnau Cronfa Anghenion Ychwanegol.

## 10.11. "Chwythu'r Chwiban"

**10.11.1.** Rhaid i staff a/neu lywodraethwyr ysgol sy'n dymuno gwneud cwyn am reoli ariannol neu briodoldeb ariannol mewn ysgol ddilyn Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor fel yr atodwyd yn Atodiad 5.

## 10.12. Diogelu plant

**10.12.1.** Rhaid i ysgolion ryddhau staff i fynychu cynadleddau achosion diogelu plant a digwyddiadau cysylltiedig. Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhyddhau staff i fynychu cynadleddau a/neu ddigwyddiadau o'r fath yn dod o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol oni bai bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn cytuno fel arall.

## 11. CYFRIFOLDEB DROS ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW

### 11.1. Cyffredinol

**11.1.1.** Dangosir y categorïau o waith y mae disgwyl i gyrff llywodraethu eu hariannu o'u cyfran o'r gyllideb ddirprwyedig yn Atodiad 4.

**11.1.2.** Bydd y Cyngor yn cadw cyllid canolog ar gyfer holl waith o natur Cyfalaf yn unol â Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ar gyfrifeg y Cyngor.

**11.1.3.** Bydd cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn parhau i fod yn gymwys i gael grant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u cyfrifoldeb statudol.

**11.1.4.** Bydd cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn gyfrifol am eitemau atgyweirio a chynnal a chadw ar yr un sail ag ysgolion Cymunedol a Sefydledig.

**ATODIAD 1**
**<u>RHEOLAETH STRATEGOL</u>**

Mae hyn yn ymwneud â rheolaeth gyffredinol o gyfrifoldebau'r Cyngor ac yn cynnwys gwariant ar y gweithgareddau canlynol.

- Y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a staff personol.
- Cynllunio corfforaethol ar gyfer y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd.
- Gweinyddu pwyllgorau sy'n delio ag addysg a chyrff aelodau eraill.
- Swyddogaethau dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan gynnwys archwiliadau mewnol ac allanol.

Dyletswyddau ariannol eraill y Cyngor, gan gynnwys:

- Swyddogaethau dan Ran 1 Deddf Llywodraeth Leol 1999 neu Ran 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- paratoi cyllideb refeniw gan gynnwys monitro a chau cyfrifon;
- paratoi cynllun cyllid datganoledig;
- gweinyddu grantiau;
- monitro ariannol o wariant nad yw'n cael ei ddirprwyo;
- monitro cydymffurfiaeth â gofynion y cynllun;
- swyddogaethau dan adran 27 Deddf 2002 (darparu cyfleusterau cymunedol gan gyrff llywodraethu);
- rheoli personél ar gyfer staff a gyllidir gan gyllidebau nad ydynt wedi'u dirprwyo gan gynnwys penodi, diswyddo ac ymddeol;
- gwariant yn gysylltiedig â chytundeb rhwymedigol â Chyngor lleol arall ar gyfer gweithredu cyfleuster a ddarperir yn rhannol ond nid yn unig ar gyfer ysgolion;
- swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â phenodi a diswyddo cyflogeion;
- ymgynghoriad â rhanddeiliaid;
- sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Cyngor dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith;
- gwariant a godwyd mewn perthynas â swyddogaethau sy'n ymwneud â'r awdurdodau yn goruchwylio cwmnïau a ffurfiwyd gan gyrff llywodraethu;
- gwariant mewn perthynas â monitro perfformiad ysgolion, gan gynnwys rheoli cyllidebau dirprwyedig a llywodraethiant ysgolion;
- gwariant mewn perthynas â chyflogau athrawon dan adran 19(9) Deddf Dysgu ac Addysg Uwch 1998 a swyddogaethau dan adran 19(2);
- gwasanaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau statudol y Cyngor;
- paratoi cynllun datblygu'r blynyddoedd cynnar;

- paratoi a gwneud adolygiadau o gynlluniau sy'n ymwneud â chydweithio ag Awdurdodau Lleol a/ neu asiantaethau eraill;
- gwariant a gyllidir gan grant ac arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ar draws gwasanaethau;
- cymorth ar gyfer systemau TG;
- gweithredu Cynlluniau Cymorth Ymddygiad;
- gwariant o ran monitro trefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- dyletswydd i ymgynnull a chefnogi CYSAG;
- costau ymddeoliad cynnar a dileu swyddi nad ydynt yn cael eu codi ar gyllidebau'r ysgol a gweinyddu cronfeydd cynlluniau pensiwn, gan gynnwys aelodaeth ôl-weithredol o gynlluniau pensiwn;
- yswiriant;
- cyflenwi ar gyfer amser cyfleuster undebau, iechyd a diogelwch a lluoedd wrth gefn;
- sefydlu a chynnal a chadw fforymau'r ysgol;
- ymchwilio i staff neu staff posibl neu fel arall, i weithio yn neu ar gyfer ysgolion
- talu ffioedd sy'n daladwy i Gyngor y Gweithlu Addysg
- ymchwilio a datrys cwynion;
- cydymffurfio â dyletswyddau deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, Cysylltiadau Hiliol a Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
- penodi a hyfforddi llywodraethwyr a gwneud trefniadau llywodraethu;
- gwariant a godwyd mewn perthynas â hyfforddi clercod ar gyfer cyrff llywodraethu;
- cyngor i gyrff llywodraethu mewn perthynas â thalu staff;
- Pennu amodau gwasanaeth ar gyfer staff nad ydynt yn dysgu a rhoi cyngor i ysgolion ynghylch graddio staff o'r fath
- rhoi gwybodaeth i neu ar gais asiantaethau'r llywodraeth;
- tanysgrifiadau hyd at 0.2% o gyllideb ysgolion y Cyngor;
- Gwariant at ddibenion nad ydynt wedi cael eu nodi unrhyw le arall hyd at 0.1% o gyllideb ysgolion y Cyngor.

**ATODIAD 2**
**MYNEDIAD I ADDYSG**

Mae hyn yn ymdrin â chyfrifoldebau'r Cyngor dros ddarparu seilwaith addysg ac yn cynnwys gwariant o ran y gweithgareddau canlynol: -

- Rheoli rhaglen gyfalaf y Cyngor gan gynnwys paratoi a gwneud adolygiad o gynllun rheoli asedau.
- Cynllunio cyflenwad lleoedd ysgol, gan gynnwys paratoi a mabwysiadu cynllun trefniant ysgol.
- Gweinyddu'r system derbyn disgyblion i ysgolion gan gynnwys gwariant a godwyd wrth gynnal ymgynghoriadau ac apeliadau a sefydlu a chynnal a chadw Fforwm Derbyn i Ysgolion;
- Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â gwahardd disgyblion o ysgolion, gan gynnwys rhoi cyngor i rieni disgybl sydd wedi'i wahardd.
- Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â darparu a gweinyddu grantiau dillad, grantiau addysg breswyl a lwfansau cynhaliaeth addysgol.
- Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â phresenoldeb mewn ysgolion gan gynnwys y Gwasanaeth Lles Addysg.
- Gwariant ar ddarparu a chefnogi myfyrwyr gan gynnwys gwariant ar grantiau dewisol;
- Pennu cymhwysedd disgybl ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Darparu addysg i ddisgyblion mewn Awdurdodau Lleol eraill neu mewn ysgolion nad ydynt yn cael eu cynnal gan unrhyw Gyngor.

**ATODIAD 3**
**RHESTR O YSGOLION DAN Y CYNLLUN**

**Ysgolion Cynradd**

- Ysgol Gynradd Albert
- Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys Yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Ynys y Barri
- Ysgol Gynradd Tregatwg
- Ysgol Gynradd Cogan
- Ysgol Gynradd Colcot
- Ysgol Gynradd Dinas Powys
- Ysgol Gynradd Evenlode
- Ysgol Gynradd Fairfield
- Ysgol Gynradd Oakfield
- Ysgol Gynradd Gladstone
- Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfo
- Ysgol Gynradd y Stryd Fawr
- Ysgol Gynradd Holltwn
- Ysgol Gynradd Parc Jenner
- Ysgol Gynradd Llandochau
- Ysgol Gynradd Llanfair
- Ysgol Gynradd Llanganna
- Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Palmerston
- Ysgol Gynradd Pendeulwyn yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-Fro
- Ysgol Gynradd y Rhws
- Ysgol Gynradd Romilly
- Yago Gynradd South Point
- Ysgol Gynradd St Andrew yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Sain Tathan
- Ysgol Gynradd Saint y Brid yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen
- Ysgol Gynradd Illtyd Sant
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff
- Ysgol Gynradd Sain Nicolas yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Sili
- Ysgol Gynradd Victoria
- Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd y Bont-faen
- Ysgol Gwaun y Nant

- Ysgol Dewi Sant
- Ysgol Iolo Morganwg
- Ysgol Pen-y-garth
- Ysgol Sant Baruc
- Ysgol Sant Curig
- Ysgol Y Ddraig

**Ysgolion Uwchradd**

- Ysgol Gyfun y Bont-faen
- Ysgol Llanilltud Fawr
- Ysgol Uwchradd Pencoedtre
- Ysgol Gyfun St Cyres
- Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
- Ysgol Stanwell
- Ysgol Uwchradd Whitmore

**Ysgolion Arbennig**

- Ysgol Y Deri

**Ysgolion Meithrin**

- Meithrinfa Bute Cottage
- Meithrinfa Cogan

**Ysgolion 3-19 oed**

- Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

**ATODIAD 4**

**RHANIAD CYFALAF / REFENIW – ENGHREIFFTIAU ESBONIADOL YN UNOL Â CHOD YMARFER SEFYDLIAD SIARTREDIG CYLLID CYHOEDDUS A CHYFRIFEG (CIPFA)**

| ELFEN | CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA | ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW | CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR |
|---|---|---|---|
| **Toeon** | | | |
| Toeon gwastad | Strwythur. Newydd (nid ailosod strwythur) | Atgyweirio/ailosod rhannau bach o'r strwythur presennol | Strwythur newydd ac atgyweirio / ailosod strwythur |
| Toeon gwastad | Strwythur. Ailosod strwythur presennol yn gyfan neu'n sylweddol i atal neu unioni methiant y strwythur ar ddigwydd ar raddfa fawr | Ailosod darnau bach o bren sydd wedi pydru neu sy'n ddiffygiol, unioni darnau bach o goncrit sydd wedi torri ac sy'n dangos bariau atgyfnerthol | Ailosod strwythur |
| Toeon gwastad | Ffyn lefelu / inswleiddio mewn adeilad newydd/estyniad | Atgyweirio / ailosod ffyn lefelu/inswleiddio lle maent yn ddiffygiol | Ffyn lefelu / inswleiddio newydd ac atgyweiriadau |
| Toeon gwastad | Ffyn lefelu / inswleiddio Ailosod/atgyweirio rhannau helaeth. Gwella effeithlonrwydd yr inswleiddio | Gweithio i wella safonau inswleiddio, yn ystod gwaith i atgyweirio/ ailosod darnau bach o'r to. | Ailosod/atgyweirio ffyn lefelu/inswleiddio |
| Toeon gwastad | Gorffeniad adeilad newydd. Ailosod popeth/ rhannau helaeth y to presennol | Ailosod gorffeniad to ar adeilad presennol, hyd terfyn gwerth cyfalaf. Ail-orchuddio | Gorffeniad adeilad newydd. Ailosod gorffeniad to ar adeilad presennol. Ail-orchuddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cerrig i wella disgwyliad oes. | |
| <u>Toeon gwastad</u> | Cyflwr Ymyl /Wyneb adeilad newydd | Atgyweiriadau / ailosod. (UPVC) Ailbeintio. | Cyflwr ymyl/wyneb ar adeilad newydd ac atgyweiriadau / ailosod/ ailbeintio |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| <u>Toeon gwastad</u> | Ailosod cyflwr ymyl/wyneb to presennol yn gyfan gwbl/ rhannau helaeth ohono | Atgyweiriadau / ailosod. (UPVC) Ailbeintio. | Ailosod cyflwr ymyl/wyneb adeilad presennol |
| <u>Toeon gwastad</u> | Draeniau ar adeilad newydd | Glanhau gwteri a pheipiau dŵr. Ailosod/ atgyweirio/ ailbeintio gwteri/ peipiau dŵr unigol | Draeniau ar adeilad newydd ac atgyweiriadau / ailosod/ ailbeintio <u>(NID</u> glanhau gwteri / peipiau dŵr) |
| <u>Toeon gwastad</u> | Arall e.e. Caeadau plwm,<br>Ffenestri to ar adeilad newydd Ailosod popeth/ rhannau helaeth ar y to presennol | Atgyweirio / ailosod / glanhau eitemau unigol | Caeadau plwm / ffenestri to ar adeilad newydd a'u hatgyweirio/ ailosod <u>(NID</u> eu glanhau) |
| <u>Toeon ar oleddf</u> | Strwythur. Newydd (nid ailosod strwythur) | Atgyweirio/ailosod darnau bach o'r strwythur presennol | Strwythur to newydd a'r holl waith atgyweirio <u>ONI BAI</u> am y trawstiau (h.y. atgyweiriadau mewnol) |
| <u>Toeon ar oleddf</u> | Strwythur. Ailosod strwythur presennol yn gyfan gwbl neu'n sylweddol i atal neu unioni methiant y strwythur ar | Ailosod/ atgyweirio darnau bach o drawstiau, ceubrennau, trawslathau ac ati | Ailosod strwythur mewnol <u>ONI BAI</u> am drawstiau (e.e. atgyweiriadau mewnol) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddigwydd ar raddfa fawr | sydd wedi pydru/ sy'n ddiffygiol<br>Nid trawstiau cyfan | |
| Toeon ar oleddf | Inswleiddio mewn adeilad newydd/estyniad | Atgyweirio/ ailosod/ gwneud inswleiddio'n fwy trwchus ar do sydd eisoes yn bodoli | Inswleiddio mewn adeilad newydd a gwaith atgyweirio/ ailosod. |
| Toeon ar oleddf | Inswleiddio. Ailosod/atgyweirio rhannau helaeth. Gwella inswleiddio hyd at safonau presennol. | | Atgyweirio/ ailosod neu wella inswleiddio |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| Toeon ar oleddf | Gorffeniad to mewn adeilad newydd/ estyniad, ailosod to sy'n bodoli eisoes yn gyfan gwbl neu rannau helaeth ohono | Ailosod darnau ar goll/ wedi'u difrodi | Gorffeniad adeilad newydd / estyniad ac atgyweirio/ ailosod ar adeilad presennol |
| Toeon ar oleddf | Estyll tywydd/ wynebau adeilad newydd/ estyniad, ailosod to sy'n bodoli eisoes yn gyfan gwbl neu rannau helaeth ohono | Atgyweiriadau / ailosod/<br>ailbeintio | Estyll tywydd/ wynebau mewn adeilad newydd/ estyniad ac atgyweiriadau/ ailosod/ ailbeintio adeilad presennol |
| Toeon ar oleddf | Draeniau adeilad newydd/estyniad | Glanhau gwteri a pheipiau dŵr. Ailosod/ atgyweirio/ gwteri/ peipiau dŵr unigol | Draeniau mewn adeilad newydd/ estyniad ac atgyweirio/ ailosod.<br>(NID glanhau gwteri na pheipiau dŵr) |
| Toeon ar oleddf | Draeniau. Ailosod popeth/ rhannau helaeth y to presennol | | Ailosod draeniau ar do presennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Toeon ar oleddf | Arall e.e. Caeadau plwm, ffenestri to mewn adeilad newydd/ estyniad, ailosod to sy'n bodoli eisoes yn gyfan gwbl neu rannau helaeth ohono | Atgyweiriadau / ailosod / glanhau | Caeadau plwm, ffenestri to mewn adeilad newydd/ estyniad ac ailosod/ atgyweirio (NID glanhau) ar do presennol |
| Toeon eraill | Rhoi dolen newydd wedi'i gorchuddio ac ati, rhwng adeiladau presennol | Mân atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw i ddolen wedi'i gorchuddio bresennol | Rhoi dolen wedi'i gorchuddio newydd ac atgyweiriadau i'r un presennol (NID glanhau) |
| Toeon eraill | Ailadeiladu neu atgyweirio strwythur dolen wedi'i gorchuddio bresennol yn helaeth | | Ailadeiladu neu atgyweirio strwythur dolen wedi'i gorchuddio bresennol. |
| Toeon eraill | Ychwanegu cyntedd ac ati at adeilad presennol | Mân atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw i gyntedd presennol | Ychwanegu cyntedd newydd a mân atgyweiriadau i gyntedd presennol |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| Toeon eraill | Ailadeiladu neu atgyweirio strwythur cyntedd presennol yn sylweddol | | Ailadeiladu neu atgyweirio cyntedd presennol. |
| **Lloriau** | | | |
| Llawr Gwaelod | Strwythur a selio rhag dŵr (DPC) mewn adeilad newydd | Atgyweirio/ailosod darnau bach o'r strwythur presennol | Strwythur a DPC adeilad newydd neu atgyweirio/ ailosod mewn strwythur presennol |
| Llawr Gwaelod | Strwythur a DPC – ailosod strwythur presennol yn gyfan | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwbl neu'n sylweddol i atal neu unioni methiant y strwythur ar ddigwydd ar raddfa fawr | | |
| Llawr Gwaelod | Lefelu a gorffeniad mewn adeilad newydd, ailosod llawr presennol yn gyfan gwbl neu'n sylweddol – e.e. ailosod rhan fwyaf o garpedi/ teils mewn ystafell | Ailosod ac atgyweirio ffyn lefelu a gorffeniadau/ ailosod matiau/ pantiau mat. Gwaith cynnal a chadw e.e. ailfarnisio'r lloriau pren. | Rhoi ffyn lefelu a gorffeniad mewn adeiladau newydd (NID gwaith atgyweirio i orffeniadau, pantiau mat ac ati.) |
| Llawr Uchaf | Strwythur – yn yr un modd â'r llawr gwaelod | Yn yr un modd â'r llawr gwaelod | Yn yr un modd â'r llawr gwaelod |
| Llawr Uchaf | Ffyn lefelu a gorffeniad – yn yr un modd â'r llawr gwaelod | Ailosod / atgyweirio gorffeniadau/ ailosod – yn yr un modd â'r llawr gwaelod | Yn yr un modd â'r llawr gwaelod |
| **Nenfydau** | | | |
| Nenfydau – nenfwd uchaf/ yr unig lawr | Crogiant | Atgyweirio / ailosod gan gynnwys yn sgil difrod dŵr ac addurno angenrheidiol | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| Nenfydau – nenfwd uchaf/ yr unig lawr | Pilen | | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| Nenfydau – nenfwd uchaf/ yr unig lawr | Penodedig | Atgyweirio / ailosod gan gynnwys difrod dŵr | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nenfydau – nenfwd uchaf/ yr unig lawr | Paneli mynediad | Atgyweirio / ailosod | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| Nenfydau – lloriau is | Crogiant | Atgyweirio / ailosod | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| Nenfydau – lloriau is | Pilen | | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| Nenfydau – lloriau is | Penodedig | Atgyweirio / ailosod | Darparu, (NID atgyweirio nac ailosod) |
| Pawb | Ailosod/ cael gwared ar ddeunyddiau Asbestos wedi'u difrodi/ aflonyddu yn arbenigol, a hynny wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng | Archwiliad /profion aer<br>Selio arwynebau Asbestos er diogelwch | Ailosod/ cael gwared ar asbestos wedi'i ddifrodi neu ei aflonyddu ONI BAI ei fod yn rhan o broject atgyweirio |
| **Waliau allanol** | | | |
| Gwaith maen/ cladin | Strwythur<br>Cynnal/ propio ar gyfer adeilad newydd | Atgyweiriadau<br>Mesurau ataliol e.e. cael gwared ar goed | Strwythur, cynnal/ propio adeilad newydd ac atgyweiriadau, (NID cael gwared ar goed oni bai ei fod yn rhan o waith clirio ar safle newydd) |
| Gwaith maen/ cladin | Gorffeniad allanol ar adeilad newydd | Atgyweirio/ailosod darnau bach o strwythur presennol e.e. ail-bwyntio/ ail-gladio rhan o wal lle mae diffyg. | Gorffeniad allanol ar adeilad newydd ac atgyweiriadau/ ailosod strwythur presennol gan gynnwys ail-bwyntio/ ailgladio |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwaith maen/ cladin | Gorffeniad allanol ar adeilad presennol lle mae ei angen i unioni diffyg mawr neu atal diffyg mawr ar ddigwydd o ran y strwythur, e.e. gwaith ail-bwyntio/ ailgladio sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o'r adeilad/ adeiladu i ailosod | | Gorffeniad allanol ar adeilad presennol, gan gynnwys unioni strwythur |
| Ffenestri a Drysau | Fframio – adeilad newydd | Atgyweirio/ ailosod fframiau unigol. Ailbeintio fframiau | Fframiau ffenestri a drysau newydd mewn adeilad newydd ac atgyweiriadau/ ailosod (NID ailosod/ atgyweirio/ ailbeintio drysau neu ffenestri mewnol) |
| Ffenestri a Drysau | Fframio – rhaglen ailosod strwythurol | Atgyweirio/ ailosod ffenestri unigol. Ailbeintio fframiau | Ffenestri newydd fel rhan o'r rhaglen ailosod |
| Ffenestri a Drysau | Gosod ffenestri – adeilad newydd | Ailosod gwydr sydd wedi torri | Gosod ffenestri mewn adeilad newydd ac ailosod gwydr wedi torri. |
| Ffenestri a Drysau | Gosod ffenestri Uwchraddio ffenestri presennol | | Uwchraddio ffenestri presennol |
| Ffenestri a Drysau | Gwaith haearn Gwella diogelwch | Atgyweirio/ ailosod, uwchraddio cloeon ac ati | Gwaith haearn i wella diogelwch ac ailosod/atgyweirio |
| Ffenestri a Drysau | Uniadau, gan gynnwys uniadau mastig | | Uniadau |
| Ffenestri a Drysau | Addurniadau mewnol ac allanol i adeilad newydd | Addurno'n fewnol ac yn allanol gan gynnwys glanhau a pharatoi | Addurno darpariaeth newydd yn fewnol ac yn allanol, ailaddurno'n allanol (NID ailaddurno'n fewnol) |

| ELFEN | CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA | ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW | CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR |
|---|---|---|---|
| Simneiau maen | Strwythur | | Strwythur y simneiau |
| Simneiau maen | Uniadau gan gynnwys ehangu ac uniadau morter/ ailbwyntio/ DPC | Atgyweirio/ ail-bwyntio | Uniadau/ pwyntio a DPC ar simneiau ac atgyweirio/ ail-bwyntio. |
| **Waliau mewnol** | | | |
| Waliau mewnol cadarn | Adnewyddu ac addasu | Mân addasiadau | |
| Partisiynau | Strwythur cyfan, gyn gynnwys leiniau, fframio, gosod ffenestri, addurno ac ati | Atgyweirio ac ailaddurno. | Partisiynau newydd, (Nid atgyweirio/ ailosod) |
| Partisiynau | Adnewyddu ac addasu | Mân addasiadau | |
| Drysau a sgriniau | Fframio/ sgriniau/ drysau i adeiladau newydd gan gynnwys gosod ffenestri, gwaith haearn, uniadau ac addurniadau mewnol | Gwaith cynnal a chadw mewnol ac ailaddurno. Atgyweirio/ ailosod drysau a sgriniau diffygiol | Darparu rhai newydd, (Nid atgyweirio/ ailosod) |
| Pob wal fewnol | Gosod ffenestr i fodloni anghenion statudol Iechyd a Diogelwch | Ailosod gwydr wedi torri | Gosod ffenestri newydd ac ailosod gwydr wedi torri, (Nid atgyweiriadau ffenestri mewnol) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Glanweithdra** | | | |
| Toiledau | Mewn adeiladau newydd, darparu holl osodiadau toiledau, plymwaith gwastraff a draeniau mewnol. | Atgyweirio/ ailosod cyfleusterau glanweithdra, gosodiadau, plymwaith gwastraff diffygiol ac ati | Darparu. (Nid atgyweirio/ ailosod cyfleusterau glanweithdra wedi'u difrodi) |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| Toiledau | Adnewyddu toiledau ar raddfa fawr | Adnewyddu ardaloedd bach | Darparu / adnewyddu (Nid ailosod cyfleusterau glanweithdra sydd wedi difrodi) |
| Toiledau | Darparu cyfleusterau i'r anabl a chyfleusterau arbenigol sy'n gysylltiedig â datganiadau disgyblion | Atgyweirio/ ailosod gosodiadau diffygiol, plymwaith gwastraff ac ati. | Darparu, (Nid atgyweirio/ ailosod gosodiadau sydd wedi'i difrodi ac ati) |
| Ceginau | Ceginau mewn adeiladau newydd ynghyd â gosodiadau, cyfarpar, plymwaith gwastraff a draeniau mewnol. Gorffeniadau mewnol ac addurno. | Cynnal y gegin i ofynion yr awdurdod lleol<br><br>Clirio systemau draenio<br><br>Ailaddurno | |
| Ceginau | Gwaith adnewyddu cyffredinol | Atgyweiriadau | |
| Ceginau | Cyfarpar mawr a chostus | Darnau atgyweirio / ailosod | |
| **Gwasanaethau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mecanyddol** | | | |
| Gwresogi/ dŵr twym | Systemau gwresogi a dŵr twym cyfan ar gyfer projectau newydd, gan gynnwys tanwydd, storio, rheolyddion, dosbarthu, pibelli ffwrn ac ati. | Gwaith cynnal a chadw cyffredinol o'r boelerdy cyfan, gan gynnwys ailosod darnau diffygiol. Glanhau'n rheolaidd. Projectau arbed ynni | Darparu system gyfan, (Nid atgyweirio/ ailosod na gwaith cynnal a chadw) |
| Gwresogi/ dŵr twym | Cael gwared ar hen foeler asbestos a phibellau inswleiddio neu rhai sydd wedi'u difrodi, os ydynt yn peri perygl i Iechyd a Diogelwch. | Systemau monitro<br><br>Materion iechyd a diogelwch | |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| Gwresogi/ dŵr twym | Ailosod hen foeleri /systemau rheoli sydd wedi mynd y tu hwnt i'w bywyd defnyddiol, a hynny wedi'i gynllunio | Ailosod rhannau diffygiol | |
| | Ailosod boeler/ systemau mewn argyfwng | | |
| Dŵr oer | Darparu gwasanaethau dŵr oer, tanciau storio, dosbarthu, systemau hybu, cenglwyr ac ati | Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio/ ailosod rhannau diffygiol megis pibellau gwasanaethau. Gwasanaethu | Darparu system gyfan, (Nid atgyweirio/ ailosod na gwaith cynnal a chadw) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn projectau mawr | blynyddol o danciau dŵr oer. | |
| <u>Nwy</u> | Dosbarthu unedau terfynell ar waith adnewyddu mawr a newydd | Atgyweirio, gwaith cynnal a chadw a diogelwch nwy<br>Pob math o wasanaethu | |
| <u>Gwyntyllu</u> | Gwyntyllu mecanyddol/ aerdymheru ar gyfer projectau mawr | Darparu gwyntyllu lleol. Atgyweirio/ ailosod systemau ac unedau diffygiol | Darparu, (<u>Nid</u> atgyweirio nac ailosod) |
| <u>Arall</u> | Pyllau nofio a'u gosod yn gyfan gwbl, gan gynnwys systemau adfer gwres | Atgyweirio/ ailosod rhannau peirianyddol, pympiau a rheolyddion. Offer trin dŵr a'r holl bibellau dosbarthu<br>Systemau adfer gwres syml.<br>Cyfarpar ac offer gwresogi solar. | Os yw'r llywodraethwyr yn eu darparu. |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| **Gwasanaethau trydanol** | | | |
| <u>Trydan cyffredinol</u> | Prif gêr switsh a dosbarthu ar gyfer projectau mawr. | Profi/ ailosod byrddau dosbarthu. Atgyweirio a gwaith cynnal a chadw pob gêr switsh a cheblau cydgysylltiol gan gynnwys y rhai mewn adeiladau dros dro. | Darparu, (<u>Nid</u> atgyweirio/ ailosod na gwaith cynnal a chadw) |
| <u>Trydan cyffredinol</u> | Ailosod systemau gwifrio darfodedig a | Pob elfen o brofi, daearu a bondio i | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pheryglus, gan gynnwys byrddau dosbarthu | fodloni gofynion iechyd a diogelwch. Pob elfen o waith cynnal. | |
| Pŵer | Gêr rheoli, dosbarthu, offer sefydlog, diogelwch ac ati. | Pob elfen o brofi, atgyweirio, ailosod eitemau bach o offer | Darparu, (Nid atgyweirio nac ailosod) |
| Goleuo | Darparu unedau goleuo ac argyfyngau | Ailosod unedau goleuo, cynnal profion, addasiadau a gwelliannau mewn argyfwng | Darparu, (Nid atgyweirio nac ailosod) |
| Gwaith trydanol arall | Amddiffyn rhag mellt mewn adeilad newydd | Atgyweirio / ailosod | Darparu ac atgyweirio |
| Gwaith trydanol arall | Systemau larwm, Teledu Cylch Cyfyng, lifftiau/ peiriannau codi ac ati. | Atgyweirio a chynnal a chadw | Darparu, (Nid atgyweirio na gwaith cynnal a chadw) |
| Gwaith trydanol arall | Gosod systemau cyfathrebu, radio/teledu, ffôn, trosglwyddo data, TG ac ati newydd a'u darparu ar gyfer adeilad newydd. | Atgyweirio/ ailosod/ gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys yr holl systemau mynediad drws | |
| **ELFEN** | **CYFALAF: YN UNOL Â CHOD YMARFER CIPFA** | **ATGYWEIRIADAU A GWAITH CYNNAL A CHADW** | **CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** |
| **Gwaith Allanol** | | | |
| Palmentydd | Darparu ffyrdd newydd, meysydd parcio, llwybrau, cyrtiau, terasau, caeau chwarae, | Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio Marcio'r maes parcio a'r maes chwarae. | Darparu os yw'n rhan o'r project cynnig statudol. Nid atgyweirio na gwaith cynnal a chadw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | grisiau a chanllawiau, fel rhan o broject mawr, gan gynnwys mynediad anabl | | Darparu ac atgyweirio rampiau a grisiau. |
| Amrywiol | Darparu waliau, ffensys, gatiau ac adeiladau ategol fel rhan o broject mawr. | Cynnal a chadw ac atgyweirio holl waliau, ffensys a gatiau perimedr/ ffiniol/ cynhaliol. | |
| Draeniau | Draeniau, ffosydd cerrig, siambrau archwilio a gwaith carthffosiaeth fel rhan o brojectau newydd | Cynnal a chadw ac atgyweirio draeniau, cafnau, trapiau saim a thyllau caead rhwng adeiladau a phrif ffosydd carthion. Glanhau'r uchod a dadflocio yn ôl yr angen. | Draeniau carthion a gwteri a phibellau dŵr allanol. Dim gwaith cynnal a chadw |
| Pyllau awyr agored | Strwythur, glendid/ diogelwch mewn adeilad newydd | Glendid, glanhau, cynnal a chadw ac atgyweirio, gan gynnwys rhannau ailosod Systemau arbed ynni syml. | Os yw'r llywodraethwyr yn eu darparu. |
| Dosbarthu gwasanaethau | Prif gyflenwad gwres<br>Prif gyflenwad nwy<br>Prif gyflenwad dŵr<br>Prif gyflenwad trydan<br>adnewyddu unrhyw rai o'r uchod. | Gwaith cynnal blynyddol | Mae darparu'n rhan o'r grant, ond nid yw atgyweirio |

## ATODIAD 5

## ‘CHWYTHU’R CHWIBAN’ AR REOLAETH ARIANNOL NEU BRIODOLDEB ARIANNOL MEWN YSGOL

### 1.Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i’r cyhoedd ac i gyflawni’r ymrwymiad hwn, mae’n dibynnu ar safon staff a rheolaeth ym mhob rhan o’r Cyngor. Yn unol â’r gyfraith, rhaid i fathau penodol o wybodaeth fod ar gael i aelodau, archwilwyr, adrannau’r llywodraeth, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau’r cyhoedd. Diben y gweithdrefnau hyn yw gwneud staff yr ysgol a llywodraethwyr yn ymwybodol o’u dyletswydd i’r cyhoedd ac i ddiogelu unigolion sydd angen datgelu gwybodaeth ynghylch rheolaeth ariannol neu briodoldeb ariannol o fewn yr Ysgol.

### 2. I bwy y mae’r gweithdrefnau’n berthnasol

Mae’r gweithdrefnau’n berthnasol i holl gyflogeion y Cyngor a/neu’r ysgol, gan gynnwys cyflogeion parhaol a thros dro, hyfforddeion, gweithwyr asiantaeth a llywodraethwyr yr ysgol.

### 3. Safonau yng ngweithdrefnau’r Cyngor ar hyn o bryd

Disgwylir i staff a llywodraethwyr ysgolion:-

- roi’r safon uchaf bosibl o wasanaeth
- os yw’n rhan o’ch dyletswyddau, rhoi cyngor priodol i gyflogeion eraill a Chynghorwyr heb duedd
- bod yn ymwybodol o’r mathau o wybodaeth o fewn y Cyngor, sy’n agored ac sydd ddim yn agored, a gweithredu’n briodol
- peidio â defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ystod eu cyflogaeth neu eu cyfnod fel llywodraethwr er budd neu fantais personol, nac i drosglwyddo unrhyw wybodaeth i eraill a allai ei defnyddio at y dibenion hyn.

### 4. Safonau Ychwanegol

Er gwaethaf y mesurau diogelu sydd eisoes ar waith, mae arferion drwg yn dal i fodoli. Fel mesur diogelu ar gyfer y Cyngor ac yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 mae’r fframwaith canlynol wedi cael ei sefydlu sy’n galluogi staff a llywodraethwyr i ‘chwythu’r chwiban’ er budd y cyhoedd ar unrhyw reolaeth neu briodoldeb ariannol yn yr ysgol.

Bydd fframwaith o’r fath yn annog diwylliant agored sy’n rhoi rhwymedigaeth foesol ar staff a llywodraethwyr, yn ogystal â’r hawl a'r dyletswydd i godi unrhyw bryderon neu arfer gwael. Mae’r diwylliant hwn yn cynnwys dyletswydd penaethiaid i sicrhau y

gall staff fynegi pryderon yn hawdd ac yr ymdrinnir â'r unigolion ynghlwm yn deg ac yn drylwyr heb berygl o edliwiadau.

**5. Canllawiau i Staff Ysgol a Llywodraethwyr**

Mae chwythu'r chwiban yn aml yn anodd a gall achosi drwgdeimlad. Fodd bynnag, rhaid ei wynebu er mwyn peidio â gadael i broblemau waethygu. Mae'n gyfrifoldeb ar unrhyw berson, waeth beth yw ei rôl, sy'n credu'n rhesymol bod arfer annerbyniol yn digwydd i dynnu sylw at bryderon. Yn ddelfrydol, dylid ymdrin ag amheuon ynghylch arfer gwael cyn cyrraedd y cam chwythu'r chwiban drwy holi ynghylch unrhyw faes sy'n peri gofid yn ystod cyfarfodydd staff neu gyfarfodydd y corff llywodraethau, er mwyn bod modd addasu'r arferion cyn achosi pryder.

Yn amlwg, rhaid sicrhau nad yw unrhyw broses ymchwilio yn cael ei chamddefnyddio ac felly, bydd unrhyw achos o gam-drin y broses, megis gwneud honiadau maleisus di-sail, yn cael eu trin yn fater disgyblaethol difrifol.

**6. Codi eich Pryderon**

Os ydych yn credu'n rhesymol y dylai'r pryderon gael eu datgelu, dylech: -

- ymdrin â'r mater yn syth,
- gwneud nodyn o'ch pryderon ar unwaith [cofiwch gynnwys yr holl fanylion perthnasol, megis yr hyn a ddywedwyd dros y ffôn neu mewn sgyrsiau eraill, y dyddiad, amser ac enwau unrhyw bobl ynghlwm, yn enwedig unrhyw dystion]
- ni ddylech geisio ymchwilio i honiadau o gamarfer eich hun
- dylech gyfleu eich amheuon wrth rywun ag awdurdod a phrofiad priodol, y pennaeth yn gyntaf neu gadeirydd y llywodraethwyr
- os ydych yn credu bod y rhain ynghlwm, codwch eich pryderon â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau.
- os oes angen, gall staff a llywodraethwyr ddefnyddio'r llwybr canlynol i godi pryderon yn hollol gyfrinachol:

  - Uwch Arolygydd Mewnol y Cyngor
  - Llinell gymorth Twyll gyfrinachol y Cyngor [Ffôn: 0800 7312525].
  -Y Swyddog Adran 151
  -Pennaeth Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb neu
  -Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.
  - Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

**7. Diogelu'r sawl sy'n 'Chwythu'r Chwiban'**

Bydd unrhyw bryderon rydych yn eu dwyn i sylw staff uwch neu unrhyw honiadau pellach yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol.

Bydd eich hunaniaeth yn cael ei hatal tan y cyfle olaf pan fyddai'n cael ei datgelu er mwyn caniatáu cyfiawnder naturiol neu benodedig.

Er mwyn amddiffyn unigolion a'r Cyngor, bydd ymchwiliadau cychwynnol yn cael eu cynnal er mwyn penderfynu a yw ymchwiliad yn briodol ac os felly, ar ba ffurf y dylai hynny ddigwydd.

Ni wahaniaethir yn eich erbyn am ddefnyddio'r polisi a'r gweithdrefnau yn gyfreithlon.

Bydd y Cyngor yn cymryd camau i leihau unrhyw anawsterau y gallech eu profi yn sgil tynnu sylw at bryder. Er enghraifft, os bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblaethol, bydd y Cyngor yn eich hysbysu ynghylch y weithdrefn.

**8. Canllawiau i Reolwyr**

Ni ddylai gweithiwr neu lywodraethwr ofni codi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch rheolaeth neu briodoldeb ariannol o fewn yr ysgol, ac ni ddylent ddioddef unrhyw anfantais yn sgil tynnu sylw at amheuaeth resymol. Disgwylir i'r Uwch-dîm Rheoli fynd i'r afael â phryderon ar unwaith ac yn drylwyr. Mabwysiadir gweithdrefnau clir yn sgil unrhyw bryderon. Ar ôl i gŵyn neu bryder ddod i law ynghylch arfer gwael, dylid cymryd y camau canlynol:

- ymdrin â'r mater yn syth
- rhoi gwybod i'r cyflogai neu'r llywodraethwr y bydd y gŵyn neu'r pryderon, ac unrhyw rai eraill sy'n dilyn, yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol
- trin pob pryder gan staff a llywodraethwyr o ddifri ac yn sensitif
- cwestiynu'r cyflogai neu'r llywodraethwr yn ddigonol i sicrhau bod rheswm dilys dros y pryder
- gwneud nodyn o'r holl fanylion perthnasol, casglu cymaint o wybodaeth â phosibl, os yw'r unigolyn wedi gwneud nodiadau, dylech gasglu'r rhain hefyd
- rhoi gwybod i'r cyflogai neu'r llywodraethwr y byddwch yn ceisio mwy o wybodaeth ganddo os oes angen
- nodi unrhyw dystiolaeth ddogfennol a allai fodoli i gefnogi'r honiadau a wnaed
- sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn drwyadl, wedi'i chefnogi'n ddigonol ac yn ddiogel – peidiwch ag ymyrryd â'r dystiolaeth mewn unrhyw fodd
- gwerthuso'r honiad yn ddiduedd, cyn mynd â'r mater ymhellach, pennu a oes unrhyw amheuon yn ymddangos yn ddilys
- asesu'r mater yn ddi-duedd, ystyried y ffeithiau fel y maent, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd gennych
- gall rhai pryderon gael eu datrys drwy gytuno ar gamau gweithredu heb yr angen am ymchwiliad

- os yn ansicr, adroddwch am yr amheuon beth bynnag
- gweithredwch ar unwaith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un mewn perygl o niwed nac anaf
- trafodwch y camau gweithredu nesaf ag uwch-reolwr os yw'r mater y tu allan i'ch cylch gorchwyl uniongyrchol
- cymerwch y camau gweithredu angenrheidiol i ddiogelu'r sawl sy'n chwythu'r chwiban ac unrhyw dystion, ac er mwyn diogelu'r dystiolaeth
- rhaid cadw hunaniaeth y cyflogai neu'r llywodraethwr yn gyfrinachol tan y cyfle olaf pan fyddai'n cael ei datgelu er mwyn caniatáu cyfiawnder naturiol neu benodedig.

- 
- dilyn polisïau/gweithdrefnau'r Cyngor fel sy'n briodol, bod yn ymwybodol o'r holl bolisïau cysylltiedig, sy'n cynnwys:

  Y Strategaeth Gwrthdwyll a Llygredd
  Cod Ymddygiad Cenedlaethol
  Cod Ymddygiad y Cyngor
  Cod Ymddygiad sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol personol
  Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol a gellir cael gwybodaeth bellach am bolisïau a gweithdrefnau o'ch Swyddog Personél, Swyddog Monitro'r Cyngor, y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Swyddog Adran 151 neu ar fewnrwyd y Cyngor. adrodd wrth staff uwch ynghylch y penderfyniad i ymdrin ag ymholiadau, y wasg a chamau gweithredu eraill i gefnogi'r bobl y mae'r digwyddiad wedi effeithio arnynt

- gwneud cofnod o'r holl gamau a gymerir

**9. Sut fydd y Cyngor yn ymateb**

Bydd camau gweithredu'r Cyngor yn dibynnu ar natur y pryder. Gallai'r materion a godir:

- gael eu hymchwilio'n fewnol
-cael eu cyfeirio at yr Heddlu
-cael eu cyfeirio at yr Archwilydd Rhanbarth, neu
-fod yn destun ymchwiliad annibynnol

Gall rhai pryderon gael eu datrys drwy gytuno ar gamau gweithredu heb yr angen am ymchwiliad.

Mae’r Cyngor yn derbyn bod angen i chi gael sicrwydd yr ymdrinnir â’r mater yn briodol. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, byddwch yn cael gwybodaeth am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau.

**10. Troednodyn i’r holl ganllawiau:**

Os yw datgelu o fewn y Cyngor yn aneffeithiol, mae’n bosibl y gellir trosglwyddo’r wybodaeth i gynulleidfa fwy eang, gan gynnwys eich Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad neu’r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Dylai’r cam hwn gael ei gymryd ond ar ôl cymryd pob cyfle i godi’r materion yn fewnol.

**11. Diogelu**

Mae’n ofynnol i chi, ac fe’ch anogir, i godi materion difrifol drwy’r weithdrefn hon. Mae hawl gennych hefyd i gael eich amddiffyn yn gyfreithiol rhag unrhyw gamau andwyol yn eich erbyn yn sgil datgelu yn unol â’r weithdrefn hon. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i lywodraeth agored a thryloyw ac i sicrhau bod pob cyflogai a llywodraethwr yn cael eu trin yn deg pan fyddant yn codi materion dilys.

## ATODIAD 6

## PROTOCOL AR GYFER CAMAU ALLWEDDOL I YMGYMRYD Â PHROJECTAU CYFALAF YSGOL

1. Rhaid i unrhyw ysgol sy'n dymuno ymgymryd ag unrhyw waith o natur cyfalaf geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau o'r cychwyn cyntaf. Rhaid cael y gymeradwyaeth hon cyn dechrau unrhyw waith dichonoldeb neu waith rhagarweiniol arall. Rhaid cael cymeradwyaeth am gynllun cyfalaf ni waeth o le ddaw'r cyllid. Mae'r Cynllun Cyllido Ysgolion yn manylu ar y gwaith perthnasol sy'n cael ei ddiffinio fel rhan o'r natur cyfalaf.

2. Ar ôl cael cymeradwyaeth i'r cynllun, bydd cyfrifoldeb ar y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau dros hysbysu'r Cyfarwyddwyr perthnasol. Bydd cyfrifoldeb ar y Cyfarwyddwyr dros nodi'r holl waith ymchwil sydd ei angen cyn cychwyn y project.

3. Rhaid i bob project gael Rheolwr Projectau enwebedig, â'r cymwysterau addas ac sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Un prif gyfrifoldeb fydd sicrhau bod y gwaith ymchwil a nodwyd gan y Cyfarwyddwyr eraill yn cael ei gynnal cyn caniatáu i'r project gychwyn.

4. Rhaid i'r ysgol gysylltu â'r Cyngor drwy gydol cyfnod y project arfaethedig.

5. Rhaid i'r gwaith dichonoldeb, gan gynnwys costio a dylunio, gael ei gynnal gan syrfewyr a phenseiri sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Rhaid i'r gwaith dichonoldeb nodi hefyd unrhyw angen am brofion asbestos ac asesu holl oblygiadau iechyd a diogelwch. Rhaid i'r holl gostau refeniw parhaus gael eu nodi hefyd ynghyd â chynllun clir o ran sut fydd y rhain yn cael eu cyllido.

6. Rhaid i holl ddogfennaeth y project a'r ddogfennaeth gontractiol gael eu paratoi ynghyd â Chyfarwyddwyr a Swyddogion priodol y Cyngor. Rhaid i'r ddogfennaeth nodi'r angen am gymeradwyaeth cynllunio ac adeiladu priodol. Rhaid i'r ddogfennaeth hefyd nodi bod y Cyngor yn berchen ar y tir/adeiladau a nodi hefyd y rhaniad o ran cyfrifoldeb yr ysgol a'r AALl.

7. Rhaid bod y tendro ar gyfer yr holl gontractwyr a darparwyr yn cael ei wneud yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contract perthnasol. Rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau mewn perthynas â thendro. Bydd angen caffael contractau mwy yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor. Mae cyfrifoldeb ar ysgolion dros wirio hyn cyn cychwyn ar y gwaith caffael.

8. Rhaid i'r holl gontractau fod yn ysgrifenedig. Rhaid cyfeirio unrhyw gontract sy'n fwy na £75,000 at Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol am gyngor priodol. Rhaid i'r holl gontractwyr a ddefnyddir fod yn achrededig a meddu ar yswiriant atebolrwydd addas.

9. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, bydd angen i'r Rheolwr Projectau lunio datganiad ynghylch gwerth cyfalaf y gwaith ar gyfer pob project, ac yna'i gyflwyno i'r Swyddog Adran 151.

## ATODIAD 7

### Gwybodaeth i'w Chynnwys ar Gofrestri Rhestri Asedau Ysgolion

Rhaid cynnwys y wybodaeth a nodir ar Gofrestr Rhestr Asedau Ysgolion

- Enw’r ysgol
- Enw'r person sy'n paratoi'r rhestr
- Dyddiad paratoi’r rhestr
- Rhif cyfresol
- Gwneuthuriad/Model
- Enw'r ased/offer
- Disgrifiad
- Nifer
- Dyddiad caffael
- Dyddiad Gosod
- Pris prynu
- Adran
- Lleoliad
- Dyddiad cael gwared â’r offer
- Gwerth ailwerthu (os yw'n berthnasol)
- Nodiadau

Gall ysgolion lunio eu templed rhestr eu hunain ar yr amod bod y wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys.   Fel arall, bydd templed Excel yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cyllid Dysgu a Sgiliau ar gais.

**ATODIAD 8**

**CRONFEYDD PREIFAT / ANSWYDDOGOL YSGOLION**

**<u>TYSTYSGRIF FLYNYDDOL</u>**

**RHAN 1:**

| | |
|---|---|
| Enw'r Ysgol | |
| Teitl y Gronfa | |
| Banc | |
| Pwyllgor (e.e. Cyllid) | |
| Cadair | |
| Aelodau'r Pwyllgor | |
| Archwiliwr | |
| Dyddiad Cyfarfod Diwethaf y Pwyllgor | |

<u>Datganiad</u>

Ardystiaf fod y wybodaeth uchod yn gywir a bod y gronfa breifat / answyddogol wedi'i gweinyddu yn unol â manylebau'r Cynllun Ariannu Teg i Ysgolion.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd (Pennaeth) | |
| Printio Enw | |
| Dyddiad | |
| Llofnodwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu) | |
| Printio Enw | |
| Dyddiad | |

**Rhan 2:**

**<u>TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD</u>**

Rwyf wedi darllen y canllawiau yn y Cynllun Ariannu Teg i Ysgolion o ran cronfeydd preifat ac answyddogol. Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio'r llyfrau a'r cofnodion sy'n ymwneud â chronfa breifat / answyddogol yr ysgol hon ar gyfer y cyfnod o .............. i............. a gallaf gadarnhau bod y Crynodeb o Gyfrifon amgaeedig yn cynrychioli darlun cywir a theg o'r gronfa fel ar 31 Mawrth 20... .

Amgaeaf gopi o restr wirio archwilydd Cronfeydd Preifat Ysgolion, a Chrynodeb o Gyfrifon

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd (Archwilydd) | |
| Printio Enw | |
| Dyddiad | |

**CRONFA BREIFAT YSGOL (Cyfrifon Diwedd Blwyddyn Enghreifftiol)**

**CRYNODEB O'R CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN YN DOD I BEN 31 MAWRTH 2022**

| Gweithgaredd | Derbynebau | Taliadau |
|---|---|---|
| Siop fwyd | 324.38 | 118.80 |
| Gwerthu Cardiau Nadolig | 64.00 | 50.00 |
| Cyngerdd | 137.50 | 0.00 |
| Ymweliad amgueddfa | 225.00 | 225.00 |
| Arall | 263.20 | 75.00 |
| **CYFANSWM** | **1,014.08** | **468.80** |

| | |
|---|---|
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2021 | £1,417.72 |
| YCHWANEGU: derbynebau yn ystod y flwyddyn | £1,014.08 |
| Cyfanswm | £2,431.80 |
| | |
| LLAI: Taliadau yn ystod y flwyddyn | £468.80 |
| **Balans terfynol ar 31 Mawrth 2022** | **£1,963.00** |
| | |

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd (Archwilydd) | |
| Printio Enw | |
| Dyddiad | |

**RHESTR WIRIO ARCHWILIAD CRONFEYDD PREIFAT / ANSWYDDOGOL YSGOLION**

*(I'w hatodi i dystysgrif yr archwilydd)*

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd gan | |
| Ysgol | |
| Cyfnod yr Archwiliad | |

| | **Cwestiwn** | **Y / N Amh** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| 1. | A yw'r ysgol wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi?<br>• Llyfr arian parod / cyfriflyfr?<br>• Cofnod dyddiol o incwm / llyfr derbynebau?<br>• Llyfr(au) a bonion siec?<br>• Taliadau Banc mewn llyfr?<br>• Cyfriflenni cyfrif banc?<br>• Talebau / anfonebau i gefnogi gwariant<br>• Cyfriflenni blaendaliadau banc?<br>• Datganiad o gyfrif ar gyfer teithiau unigol a gweithgareddau codi arian? | | |
| 2. | A yw'r llyfr arian parod / cyfriflyfr yn rhifyddol gywir? | | |
| 3. | Gwirio Balans Agoriadol<br>• A yw'r balans agoriadol o'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i gyflwyno'n gywir?<br>• A yw'r hen gyfrifon / cyfrifon blaenorol wedi'u cau'n gywir?<br>• A yw balansau o gyfrifon caeedig wedi'u trosglwyddo'n gywir?<br>• A oes tystiolaeth o gadarnhad o'r balans a ddygwyd ymlaen? | | |
| 4. | A yw'r balans arian parod yn y llyfr arian parod / cyfriflyfr yn cysoni â'r gyfriflen cyfrif banc? | | |
| 5. | A yw'r holl eitemau o wariant yn cael eu hategu gan dderbynebau gwreiddiol?<br>• Lle nad dyma'r achos, a yw cofnod o wariant a wnaed heb dderbynneb wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan y Trysorydd a'i weld gan ail berson? | | |
| 6. | A yw incwm wedi'i gofnodi ar gofnod dyddiol o incwm neu lyfr derbynebau tebyg? | | |
| 7. | A yw'r holl incwm a dderbyniwyd wedi'i fancio'n brydlon? | | |
| 8. | A yw'r holl incwm a dderbyniwyd wedi'i fancio'n gyfan gwbl (h.y. heb ddidyniadau am dreuliau) | | |
| 9. | Tripiau a gweithgareddau codi arian<br>• A oes cyfriflenni cyfrifon unigol wedi'u paratoi ar gyfer teithiau unigol a gweithgareddau codi arian<br>• A yw'r datganiadau hyn yn unol â chofnodion yn y llyfr arian parod | | |
| 10. | A allwch gadarnhau nad yw'r ysgol yn cadw unrhyw incwm a gynhyrchir o'r canlynol yn y gronfa breifat / answyddogol<br>• Gosodiadau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Ffioedd gofal plant<br>• Ffioedd clwb ar ôl ysgol<br>(*nodyn – dim ond arian a godir gan Gyrff Llywodraethu a Chymdeithasau Rhieni Athrawon y gellir ei gadw yn y gronfa breifat.  Dylid talu'r holl incwm arall a gynhyrchir i brif gyllideb yr ysgol*)<br><br>• A allwch gadarnhau bod unrhyw incwm o'r fath a allai fod wedi'i gasglu i'r gronfa answyddogol bellach wedi'i dalu'n brydlon i brif gyllideb yr ysgol? | | |
| 11. | A yw'r gronfa ysgolion wedi'i defnyddio ar gyfer gweithgareddau sydd o fewn cwmpas cronfa'r ysgol yn unig. | | |
| 12. | A oes gan y Gronfa Ysgolion unrhyw stociau o eitemau mewn perthynas â gweithgareddau codi arian? (e.e. siopau bwyd, dillad ysgol ac ati)<br>• Os oes, a yw taflenni rheoli stoc yn cael eu cadw?<br>• A ellir cysoni symudiadau stoc â thaliadau a derbynebau yn llyfr arian parod / cyfriflyfr y Gronfa? | | |